

# Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2024

## Dos, a gwna dithau yr un modd



**Go and do likewise**  
**Week of Prayer for Christian Unity**

  
**churches  
together**  
IN BRITAIN AND IRELAND®

**18-25 Ionawr 2024**

[www.ctbi.org.uk/weekofprayer](http://www.ctbi.org.uk/weekofprayer)

Mae dameg y Samariad Trugarog yn un o'r darnau mwyaf adnabyddus yn yr Ysgrythur, ond eto nid yw'n ymddangos ei bod byth yn colli ei grym i herio difaterwch yn wyneb dioddefaint ac i ysbrydoli cydsefyll â'r rhai sy'n dioddef. Mae'n stori am groesi ffiniau sy'n hoelio ein sylw ar y rhwymau sy'n uno'r ddynoliaeth gyfan.

Wrth ddewis y darn hwn o'r Ysgrythur ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, mae eglwysi Burkina Faso wedi ein gwahodd i ymuno â nhw mewn proses o hunanfyfrio wrth iddynt ystyried beth mae'n ei olygu i garu ein cymydog yng nghanol argyfwng diogelwch. Er bod cymunedau ym Mhrydain ac Iwerddon mewn llai o berygl oddi wrth weithredoedd

o drais torfol nag yw cymunedau Burkina Faso, eto mae llawer yma'n parhau i fyw gydag atgofion o drais difrifol a llawer yn profi bygwth hynny yng nghyd-destun hunaniaeth a pherthyn. Mae hefyd grwpiau o fewn cymunedau, gan gynnwys pobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig a phobl sy'n ceisio lloches, sy'n teimlo'n arbennig o agored i drais neu gael eu dadleoli dan fygythiad trais.

'Pwy yw  
fy  
nghymydog?'

Mae ein cymdogion yn Burkina Faso yn ein galw i gofleidio o'r newydd freuddwyd Duw ar ein cyfer – breuddwyd o undod ar sail rhwymau cariad a thosturi. Mae hyn yn ein herio nid yn unig i fyfrio ar yr hyn rydym wedi ei ddysgu ar ein taith eciwmenaidd hyd yma, ond hefyd i ehangu ein gweledigaeth. Beth allwn ni ei ddysgu gan bobl o grefyddau eraill, gan y rhai sydd o gefndiroedd gwahanol iawn i ni, a beth sydd ei angen arnom oddi wrth ein gilydd?

Mae'r myfyrdodau yn ein hannog i ystyried safbwynt nid yn unig yr un a drugarhaodd, ond hefyd y rhai a aeth heibio ar yr ochr draw. Ni fydd llawer ohonom wedi bod yn ymwybodol o'r bygythiad sy'n wynebu cymunedau yn Burkina Faso cyn darllen y deunyddiau hyn.

# Welcome

---

The parable of the Good Samaritan is one of the best known passages of Scripture, yet one that never seems to lose its power to challenge indifference to suffering and to inspire solidarity. It is a story about crossing boundaries that calls our attention to the bonds that unite the whole human family.

In choosing this passage of Scripture for the Week of Prayer for Christian Unity, the churches of Burkina Faso have invited us to join with them in a process of self-reflection as they consider what it means to love our neighbour in the midst of a security crisis. Communities in the British-Irish context may be less vulnerable to acts of mass violence than in Burkina Faso, but there are still many living with the memory and/or the threat of serious violence, centred on issues of identity and belonging. There are also groups within communities, including people from ethnic minority backgrounds and people seeking asylum, who feel particularly vulnerable to violence or being displaced by the threat of violence.

'Who is  
my  
neighbour?'

Our neighbours in Burkina Faso call us to reconnect to God's dream for us – a dream of a unity formed of ties of love and compassion. This challenges us not only to reflect on the learning from our ecumenical journey so far, but to widen our vision. What can we learn from people of other faiths, from those whose backgrounds are most different from our own, and what do we need from each other?

The reflections encourage us to consider the perspective not only of the one who showed mercy, but also of those who passed by. Many of us will have been unaware of the threat faced by communities in Burkina Faso before reading this material.

---

Mae'n ein hatgoffa mewn modd grymus am y gwrthdaro sy'n digwydd ledled y byd, y mae llawer ohono wedi ei esgeuluso ond sy'n parhau i ddinistrio bywydau a difetha cymunedau. Prin yw'r sefyllfaoedd sy'n gallu ennyn sylw cyfryngau'r byd, a phrinnach fyth yw'r rhai sy'n gallu cadw'r sylw hwnnw. Galwyd yr Eglwys i fod yn eiriolwr dros y rhai a ddaliwyd yn y gwrthdrawiadau anghofiedig hyn, ac i sicrhau y clywir lleisiau'r rhai sy'n teimlo'n wrthodedig.

Yn ystod yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, mae'r Eglwys yn cael ei herio i aros gyda'r clwyfedig a'u hymgeleddu ac, wrth wneud hynny, gydnabod ein clwyfau ni ein hunain fel eglwysi ac fel cymunedau. Mae wynebu gwirionedd ein natur doredig ni ein hunain o gymorth i ni gydsefyll â'r rhai sy'n dioddef, yn ostyngedig a chyda dyfnder empathi, a'n cydgyfarfod wedi ei gysegru a'i ysbrydoli gan gariad iachusol Crist.

**Dr Nicola Brady, Ysgrifennydd Cyffredinol,  
Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon**

## Cyflwyniad i'r thema

Paratowyd y deunyddiau ar gyfer Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2024 gan dîm eciwmenaidd o Burkina Faso gyda chymorth y Gymuned Chemin Neuf (CCN)<sup>1</sup> leol. Y thema a ddewiswyd yw "Câr yr Arglwydd dy Dduw ... a châr dy gymydog fel ti dy hun" (Luc 10:27). Bu brodyr a chwiorydd o Archesgobaeth Gatholig Ouagadougou, Eglwysi Protestannaidd, cyrff eciwmenaidd a'r CCN yn Burkina Faso yn cydweithio'n helaeth i lunio'r gweddïau a'r myfyrdodau. Gwelent eu cydweithio fel taith o dröedigaeth eciwmenaidd wirioneddol.

### Caru Duw a'th gymydog yng nghanol argyfwng diogelwch

Rhan o ranbarth y Sahel yng Ngorllewin Affrica yw Burkina Faso, rhanbarth sy'n ymestyn i wledydd Mali a Niger gerllaw. Mae i'r wlad arwynebedd o 174,000 cilomedr sgwâr a phoblogaeth o un filiwn ar hugain, sy'n cynnwys tua thrigain o grwpiau ethnig. Mae oddeutu 64% o'r boblogaeth yn Fwslimiaid, 9% yn ddilynwyr crefyddau Affricanaidd traddodiadol a 26% yn Gristnogion (20% yn Gatholigion a 6% yn Brotestaniaid).

---

It is a powerful reminder of the many neglected conflicts that continue to destroy lives and devastate communities around the world, when only a limited number can capture, and fewer still can hold, the attention of the world's media. The Church is called to be an advocate for those caught in these forgotten conflicts, and to amplify the voices of those who feel forsaken.

In this Week of Prayer for Christian Unity the Church is being challenged to stop and tend to the wounded and, in so doing, to recognise our own wounds as churches and as communities. Facing the reality of our own brokenness helps to connect us to the suffering of others from a place of humility and deep empathy, creating a sacred space of encounter inspired by Christ's healing love.

**Dr Nicola Brady, General Secretary,  
Churches Together in Britain and Ireland**

## Introduction to the theme

The materials for the 2024 Week of Prayer for Christian Unity were prepared by an ecumenical team from Burkina Faso facilitated by the local Chemin Neuf Community (CCN)<sup>1</sup>. The chosen theme is "You shall love the Lord your God ... and your neighbour as yourself" (Lk 10:27). Brothers and sisters from the Catholic Archdiocese of Ouagadougou, Protestant Churches, ecumenical bodies and the CCN in Burkina Faso collaborated generously in drafting the prayers and reflections. They experienced their work together as a real path of ecumenical conversion.

### Loving God and neighbour in the midst of a security crisis

Burkina Faso is in the Sahel region of West Africa, which extends into the neighbouring countries of Mali and Niger. It covers 174,000 km<sup>2</sup> and has 21 million inhabitants, of about 60 ethnicities. Approximately 64% of the population is Muslim, 9% adheres to traditional African religions and 26% is Christian (20% Catholic, 6% Protestant).

---

Mae aelodau o'r tri grŵp crefyddol hyn i'w canfod ym mhob rhan o'r wlad ac ymron ym mhob teulu.

Mae Burkina Faso yn profi argyfwng diogelwch difrifol ar hyn o bryd, sy'n effeithio ar bob cymuned ffydd. Ar ôl ymosodiad jihadaidd enfawr a oedd yn deillio o'r tu allan i'r wlad yn 2016, dirywiodd y sefyllfa ddiogelwch yn Burkina Faso, ac o ganlyniad ei chydlyniant cymdeithasol, yn sylweddol. Mae'r wlad wedi dioddef cynnydd mewn ymosodiadau terfysgol, torcyfraith a masnachu pobl. Gadawodd hynny dros dair mil o bobl wedi marw a bron

i ddwy filiwn o bobl wedi'u dadleoli o fewn y wlad. Mae miloedd o ysgolion, canolfannau iechyd a neuaddau trefi wedi cael eu cau, ac mae llawer o'r seilwaith economaidd-gymdeithasol a thrafnidiaeth wedi'i ddiinstrio. Mae ymosodiadau sy'n targedu grwpiau ethnig penodol yn cynyddu'r perygl o wrthdaro rhyng-gymunedol. Yng nghyd destun y bygythiad enbyd hwn i ddiogelwch, mae cydlyniant cymdeithasol, heddwch ac undod cenedlaethol yn cael eu tanseilio.

*'Y mae  
cariad yn  
amyneddgar; y  
mae cariad yn  
gymwynasgar'*

Mae ymosodiadau arfog wedi targedu eglwysi Cristnogol yn benodol. Mae offeiriaid, gweinidogion a chatecyddion wedi cael eu lladd yn ystod gwasanaethau addoli ac ni wyddys beth fu tynged eraill a gafodd

eu herwgipio. Ar adeg ysgrifennu hyn, mae mwy na 22% o diriogaeth y wlad y tu hwnt i reolaeth y wladwriaeth ac ni all Cristnogion arfer eu ffydd yn agored yn yr ardaloedd hynny bellach. Oherwydd gweithgareddau terfysgol, mae'r mwyafrif o'r eglwysi Cristnogol yng ngogledd, dwyrain a gogledd-orllewin y wlad wedi cael eu cau. Nid oes bellach unrhyw addoli Cristnogol cyhoeddus mewn llawer o'r ardaloedd hyn, ond lle mae addoli yn parhau'n bosibl dan amddiffyniad yr heddlu, fel arfer mewn dinasoedd mawr, rhaid cwtogi ar hyd y gwasanaethau oherwydd pryderon diogelwch.

Er gwaethaf ymdrechion y wladwriaeth a chymunedau crefyddol fel ei

---

These three religious groups are represented in every region of the country, and in virtually every family.

Burkina Faso is currently experiencing a serious security crisis, which affects all faith communities. After a major jihadist attack was mounted from outside the country in 2016, the security situation in Burkina Faso, and consequently its social cohesion, deteriorated dramatically. The country has endured a proliferation of terrorist attacks, lawlessness and human trafficking. This has left over 3,000 people dead and almost two million internally displaced. Thousands of schools, health centres and town halls have been closed, and much of the socio-economic and transport infrastructure has been destroyed. Attacks targeting specific ethnic groups exacerbate the risk of inter-communal conflicts. In the context of this dire threat to security, social cohesion, peace and national unity are being undermined.

'Love is  
patient;  
love is  
kind'

Christian churches have been specifically targeted by armed attacks. Priests, pastors and catechists have been killed during worship and the fate of others who were kidnapped remains unknown. At the time of writing,

more than 22% of the national territory is outside the control of the state and Christians can no longer openly practise their faith in these areas. Because of terrorism, the majority of Christian churches in the north, east and north-west of the country have been closed. There is no longer any public Christian worship in many of these areas, but where worship is still possible, with police protection, usually in large cities, services have to be shortened owing to security concerns.

Despite the efforts of both the state and religious communities,

---

gilydd, mae'r wlad yn dod yn fwyfwy ansefydlog wrth i'r nifer o grwpiau eithafol gynyddu. Serch hynny, amlygir rhai arwyddion o gydsefyll rhwng y crefyddau Cristnogol, Mwslimaidd a thraddodiadol. Mae eu harweinwyr yn gweithio i ddod o hyd i atebion a fydd yn parhau ar gyfer heddwch, cydlyniant cymdeithasol a chymod. I'r perwyl hwnnw, er enghraifft, mae Comisiwn Deialog Gristnogol-Fwslimaidd Cynhadledd Esgobion Catholig Burkina-Niger yn ymdrechu'n egniol i gefnogi deialog a chydweithrediad rhyng-grefyddol a rhyngethnig.

Yn dilyn galwad y Llywodraeth am weddiö dros heddwch, cydlyniant cymdeithasol a chymod, mae eglwysi unigol yn parhau i drefnu gweddio beunyddiol ac ymprydio. Dwysaodd gweithredu ar ran yr amrywiol eglwysi Catholig a Phrotestannaidd i gynorthwyo pobl a ddadleolwyd.

Trefnwyd cyfarfodydd trafod a chodi ymwybyddiaeth er mwyn hybu dealltwriaeth well o'r sefyllfa ac o werth cyfeillgarwch ac er mwyn datblygu strategaethau ar gyfer adfer heddwch a fydd yn parhau. Amlygir y gobaith hwnnw yn y ddihareb Mossi<sup>2</sup> draddodiadol: "Waeth beth fo natur na hyd yr ymrafael, fe ddaw awr cymodi."

'Ffydd,  
Gobaith,  
Cariad'

Bu'r gwahoddiad i gydweithio ar y testunau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2024 yn her i Eglwysi Burkina Faso gydgerdded, cydweddio a chydweithio yn rhwymau cariad yn ystod y cyfnod anodd hwn ar gyfer eu gwlad. Mae cariad Crist, sy'n uno pawb o'i bobl, yn gryfach na'u rhwygiadau, ac mae Cristnogion Burkina Faso yn ymrwymo i gydgerdded llwybr cariad tuag at Dduw a chymydog. Mae ganddynt hyder y bydd cariad Duw yn goresgyn y trais sydd heddiw'n gormesu eu gwlad.

<sup>1</sup> Gellir canfod rhagor o wybodaeth ynghylch CCN yn [ctbi.org.uk/weekofprayer](http://ctbi.org.uk/weekofprayer).

<sup>2</sup> Y Mossi yw'r grŵp ethnig mwyaf yn Burkina Faso.



---

the country is becoming increasingly unstable as extremist groups become more widespread. Nevertheless, a degree of solidarity is emerging between the Christian, Muslim and traditional religions. Their leaders are working to find lasting solutions for peace, social cohesion and reconciliation. To this end, for instance, the Christian-Muslim Dialogue Commission of the Catholic Bishops' Conference of Burkina-Niger is making a major effort to support inter-religious and inter-ethnic dialogue and cooperation.

Following the Government's calls for prayers for peace, social cohesion and reconciliation, individual churches continue to organise daily prayers and fasting. Action by the various Catholic and Protestant churches has intensified to assist displaced persons.

Reflection and awareness-raising meetings have been organized to promote better understanding of the situation and of the value of fraternity, and to develop strategies for a return to lasting peace. This hope is also reflected in the traditional Mossi <sup>2</sup> proverb: "Regardless of the nature or duration of the fight, the moment of reconciliation will come."

'Faith,  
Hope,  
Love'

The invitation to work together on the texts for the Week of Prayer for Christian Unity 2024 challenged the different churches in Burkina Faso to walk, pray and work together in mutual love during this difficult period for their country. The love of Christ that unites all Christians is stronger than their divisions and the Christians of Burkina Faso commit themselves to walking the path of love of God and love of neighbour. They are confident that God's love will overcome the violence that currently afflicts their country.

<sup>1</sup> Further information about CCN can be found at [ctbi.org.uk/weekofprayer](http://ctbi.org.uk/weekofprayer).

<sup>2</sup> The Mossi people make up the largest ethnic group in Burkina Faso.

# DIWRNOD 1

Dyma un o athrawon y Gyfraith yn codi i roi prawf arno, gan ddweud,  
“Athro, beth a wnaif i etifeddu bywyd tragwyddol?” (Luc 10:25)

## Cynorthwya ni, Arglwydd, i ogwyddo'n bywyd tuag atat ti.

### Darlleniadau ychwanegol o'r Beibl

Rhufeiniaid 14:8-9  
Salm 103:13-18

### Sylwadau

“Beth a wnaif i etifeddu bywyd tragwyddol?” Mae'r cwestiwn tyngedfennol hwn y bu i athro yn y Gyfraith ei ofyn i Iesu yn herio pawb sy'n credu yn Nuw. Mae'n effeithio ar ystyr ein bywyd ar y ddaear ac i dragwyddoldeb. Mewn man arall yn y Beibl, mae Iesu'n rhoi i ni'r diffiniad eithaf o fywyd tragwyddol: “... dy adnabod di, yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist.” (Ioan 17:3). Golyga adnabod Duw ddarganfod a chyflawni ewyllys Duw yn ein bywydau. Dehonglir breuddwyd Duw ar ein cyfer (cymharer Ioan 10:10) yn rymus yng ngeiriau Sant Irenaeus: “Gogoniant Duw yw bod dynol sy'n gyflawn fyw”.

Mae trais, trachwant a chamfanteisio yn ein pellhau oddi wrth ein gilydd ac oddi wrth Iesu fel "y Ffordd" sy'n ein harwain at y Tad, pen draw eithaf ein taith. Wrth lefaru â ni o gymdeithas sydd wedi'i rhwygo a'i niweidio gan drais a gwrthdaro ar sail hunaniaeth dros yr wyth mlynedd a aeth heibio,

mae eglwysi Burkina Faso yn cynnig neges o obaith inni yn addewid cariad hollgynhwysol Crist.

### Myfyrdod

Gall realiti bywyd yn Burkina Faso fod yn wahanol iawn i'r hyn a brofwyd ni, ond gallwn nodi cryn debygrwydd rhwng rhai o'r heriau sy'n wynebu Cristnogion yn y ddau gyd-destun. Ystyriwch y myfyrdod canlynol gan Arweinwyr Eglwysig yn Iwerddon:

“Yn ein hagwedd tuag at y gorffennol mae gennym gyfrifoldeb moesol i gydnabod effaith erydol trais a geiriau a all arwain at drais, a dyletswydd gofal tuag at y rhai sy'n dal i fyw gyda chreithiau adladd hynny... Digwyddodd addysgu, gweinidogaeth ac aberth Crist yng nghyd-destun cymdeithas a oedd wedi'i rhannu'n wleidyddol, ac wedi'i chlwyfo gan wrthdaro ac anghyfiawnder... Yn ei ymwneud â phobl, fel y dangosir pan gyfarfu â'r wraig o Samaria (Ioan 4:1-42), gwelwn nad yw Crist yn ceisio

gwadu gwahaniaethau, ond yn hytrach am sefydlu cyswllt drwy wrando grasol, gan ddisodli allgáu a chywilydd â'r gobaith am ddechreuadau newydd.”  
(Grŵp Arweinwyr Eglwysig Iwerddon, *In Christ We Journey Together*, 17 Mawrth 2021)

## Gweddi

Dduw bywyd,  
fe'n creaiast ni i gael bywyd, a bywyd yn ei holl gyflawnder.  
Cynorthwya dy Eglwys glwyfedig i fod yn ffynhonnell gobaith ac iachâd.  
Wrth inni ddilyn ffordd Iesu'n gadarn ein penderfyniad, bydded i ni

## Cwestiynau

**Personol:** Sut ydych chi'n gweld breuddwyd Duw ar waith yn eich bywyd?

**Lleol:** Beth allai fod yn llesteirio ein tystio fel eglwysi i addewid Duw o fywyd yn ei gyflawnder?

**Byd-eang:** Beth yn rhagor allai cymunedau ffydd fod yn ei wneud i adeiladu ar eu profiad bugeiliol a'u cysylltiadau byd-eang i hyrwyddo'r gwaith o geisio heddwch a chymod?

arwain eraill atat ti.  
Gweddiwn yn enw Iesu. Amen.

## Ewch a Gwnewch

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personol:** Meddyliwch am enghraifft o'r newyddion sy'n dangos cymdeithas a glwyfwyd gan wrthdaro. Ymchwiliwch i'r modd y mae eglwysi Cristnogol yn ymateb. Sut y gellir cymhwyso hyn i'ch cyd-destun chithau?

**Lleol:** Ystyriwch rannu thema Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni gydag aelodau o gymunedau ffydd eraill yn eich ardal leol, gan fyfyrto ar y cysylltiadau rhwng y cyd-destunau lleol a byd-eang. Beth arall all eich cymunedau ei wneud i sicrhau bod materion cyfiawnder byd-eang yn rhan o ddeialog ryng-grefyddol yn lleol?

**Byd-eang:** Mae Cristnogion sy'n dod ynghyd i addoli a thystio mewn rhannau o Burkina Faso wedi dioddef ymosodiadau, rhai ohonynt yn farwol, ac mae bygythiad trais yn parhau i orthrymu a gwasgaru'r gymuned honno. Wrth i ni ymgynnull eleni ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, gweddiwn dros bawb sy'n wynebu erledigaeth grefyddol yn Burkina Faso a rhannau eraill o'r byd.

# DAY 1

A lawyer stood up to test Jesus. “Teacher,” he said, “What must I do to inherit eternal life?” (Lk 10:25)

Help us, Lord, to have a life turned towards you

## Additional scripture passages

Romans 14:8-9

Psalm 103:13-18

## Commentary

“What must I do to inherit eternal life?” This crucial question asked of Jesus by a lawyer challenges every believer in God. It affects the meaning of our life on earth and for eternity. Elsewhere in the Bible, Jesus gives us the ultimate definition of eternal life: “... that they may know you, the only true God, and Jesus Christ, whom you have sent” (Jn 17:3). Knowing God means discovering and doing the will of God in our lives. God’s dream for us (cf. Jn 10:10) finds powerful expression in the words of Saint Irenaeus: “The glory of God is a human being fully alive”.

Violence, greed and exploitation distance us from one another and from Jesus as “the Way” that leads us to the Father, our ultimate destiny. Speaking from a society that has been torn apart and traumatised by violence and identity-based conflict for the last eight years, the churches of Burkina Faso offer us a

message of hope in the promise of Christ’s all-embracing love.

## Reflection

The reality of life in Burkina Faso may be very different from our own, but we can identify significant parallels in the challenges facing Christians in each context. Consider the following reflection offered by Church leaders in Ireland:

“In our approach to the past we have a moral responsibility to acknowledge the corrosive impact of violence and words that can lead to violence, and a duty of care to those still living with the trauma of its aftermath... Christ’s teaching, ministry and sacrifice were offered in the context of a society that was politically divided, wounded by conflict and injustice... In these encounters, as exemplified in the meeting with the Woman of Samaria (Jn 4:1-42), we see that Christ does not seek to minimise differences,

but rather to establish connection through gracious listening, replacing exclusion and shame with the hope of new beginnings.” (Church Leaders’ Ireland Group, *In Christ We Journey Together*, 17 March 2021)

## Prayer

God of life,  
You have created us to have life,  
and life in all its fullness.  
Help your wounded Church to be a  
source of hope and healing.  
As we follow Jesus’ way with  
determination, may we lead  
others to you.  
We pray in Jesus’ name. Amen.

## Questions

**Personal:** How do you see God’s dream for you unfolding in your life?

**Local:** What might be weakening our witness as churches to God’s promise of abundant life?

**Global:** What more could faith communities be doing to build on their pastoral experience and global reach to further the work of peace and reconciliation?

## Go and do

(see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personal:** Think of an example from the news that illustrates a society wounded by conflict. Research how Christian churches are responding. How can this be applied in your context?

**Local:** Consider sharing the theme from this year’s Week of Prayer for Christian Unity with members of other faith communities in your local area, reflecting on the connections between the local and global contexts. What more can your communities do to bring issues of global justice into our local inter-faith dialogue?

**Global:** Christians gathering to worship and witness in parts of Burkina Faso have been attacked and murdered, and the threat of violence continues to oppress and scatter that community. As we gather in this Week of Prayer for Christian Unity, pray for all those facing religious persecution in Burkina Faso and other parts of the world.

# DIWRNOD 2

Atebodd Iesu, "Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth ac â'th holl feddwl, a châr dy gymydog fel ti dy hun."  
(Luc 10:27)

**Cynorthwya fi, Arglwydd, i dderbyn dy gariad, fel y gallaf dy amlygu wrth garu'n gywir y fi fy hun a'm cymydog.**

## Darlleniadau ychwanegol o'r Beibl

Deuteronomium 10:12-13

Salm 133

## Sylwadau

Mae'r ateb mae Iesu yn ei ysgogi gan y cyfreithiwr, oddi wrth orchmynion adnabyddus Duw, yn ymddangos yn syml. Fodd bynnag, bydd y gorchymyn i garu Duw â'n holl galon, ein holl enaid, ein holl nerth a'n holl feddwl yn her barhaus, gan fynnu ymlyniad gydol oes i ddysgu, myfyrio a cheisio newid radical ynom ein hunain trwy nerth yr Ysbryd Glân.

Mae'r cyfarwyddyd i garu ein cymdogion "fel ni ein hunain" yn gofyn am yr un ystyriaeth. Mae caru a gwerthfawrogi ein hunain fel y byddai Duw yn dymuno yn gofyn am berthynas ddwys. A yw Duw yn dweud na allwn ni garu ein cymydog yn gyflawn oni bai ein bod yn ein caru ein hunain? Mae'n ymddangos felly, ac mae hynny'n her enfawr i gymaint ohonom. A ydym yn cydnabod ein bod yn byw yng ngogoniant cariad Duw, y mae ei lygaid tosturiol arnom bob amser? Creadigaeth annwyl i Dduw ydym, wedi'n llunio ar ddelw Duw, ac mae cariad Duw atom yn ddi-ben-draw. Mae gorchymyn Duw i garu yn galw am

ymrwymiad dwfn ac yn golygu rhoi o'n hunain yn llwyr, gan gynnig ein calonnau a'n meddyliau i wasanaethu ewyllys Duw. Nid yw gras Duw tuag atom byth yn dod i ben. Dim ond i ni ofyn, medd Duw, a byddwn yn derbyn y fath ras i ddilyn esiampl Crist, yr un a offrymodd ei hun yn llwyr ac a ddywedodd, "Gwneler dy ewyllys di, nid fy ewyllys i" (Luc 22:42), gan garu'r holl ddynoliaeth, gan gynnwys ei elynion, hyd yr eithaf.

Ni chawn ddewis pwy fydd ein cymdogion. Weithiau mae'n rhaid i ni oresgyn rhwystrau anodd i'w gwasanaethu, yn hytrach na cherdded heibio. Mae caru yn golygu ymateb i'w hanghenion, gan dderbyn yr hyn ydyn nhw, yn ostyngedig, gan hybu eu gobeithion a'u dyheadau. Mae undod Cristnogol yn gofyn yr un gostyngeddwydd – yng Nghrist, rydyn ni'n un. Bydded i ni ddysgu dathlu gwahaniaethau ac ymhyfrydu ym mywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Crist, a'u grym i'n huno a sefydlu ffordd newydd o fyw sydd ar gael i bawb.

## Myfyrdod

F'anwylyd, eiddot ti yw fy nghalon.  
Myfi a'th greodd ac rwy'n dy adnabod.  
Mae dy enw'n fy llenwi â llawenydd.  
Mae fy holl weithredoedd, f'ymateb, fy  
meddwl, f'emosiwn ar dy gyfer di  
a'm gweddi drosot yn seiliedig  
ar y cariad goruchaf.  
Derbyn fy nhrugaredd,  
ymgolla yn fy addfwynder,  
ymhyfryda yn fy nhynerwch llawen.  
Gad i mi dy drysori –  
gad i mi farw drosot –  
bydded i'm calon ddod yn un â'th  
galon dithau.  
Curiad calon newydd,  
yn blodeuo ynot,  
yn datguddio ei weledigaeth dyner,  
yn drwm o gariad;  
Gobaith dewr a di-ildio  
yn orlawn o ras.  
F'anwylyd,  
caniatâ i'r nefoedd ymbelydru  
ym mhob cyfarfyddiad dynol,  
gan ei dyneru  
ag urddas cariad  
a'i addewid.

## Gweddi

Arglwydd, rho inni'r gras i ddod i'th  
adnabod yn ddwfn,  
er mwyn gallu dy garu di'n llwyr.  
Bydded i rodd dy Ysbryd Glân alluogi  
ein llygaid, ein clustiau a'n  
meddyliau i dderbyn dy gariad  
diamod tuag atom ni.  
Pura ein calonnau fel y byddwn bob  
amser yn barod i garu ein cymydog,  
er gwaethaf pob gwahaniaeth, fel ni  
ein hunain.  
Trwy'r un a fu fyw yn llwyr er mwyn  
eraill, Crist ein Harglwydd. Amen.

## Cwestiynau

**Personol:** Sut ydych chi'n eich gweld eich hun? Sut ydych chi'n meddwl mae Duw yn eich gweld chi?

**Lleol:** A yw'r modd mae Duw yn eich gweld chi yn newid eich barn am y rhai o'ch cwmpas?

**Byd-eang:** Sut mae'r modd mae Duw yn eich gweld chi yn newid y ffordd rydych yn ymateb i'r newyddion?

## Ewch a Gwnewch

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personol:** Penderfynwch ddod i adnabod rhywun newydd sy'n byw ar eich stryd chi neu gerllaw i chi a dod o hyd i ffordd gariadus o ymwneud â nhw.

**Lleol:** Archwiliwch yr ardal lle rydych yn byw a'r cyfleoedd sydd yna i oresgyn rhwystrau er mwyn gwasanaethu.

**Byd-eang:** Ystyriwch fater yn ymwneud â phobl sydd wedi'u dadleoli a'u digartrefu. Sut allech chi gyfrannu'n ystyrlon tuag at newid y sefyllfa?

# DAY 2

Jesus answered, “You shall love the Lord your God with all your heart, and with all your soul, and with all your strength, and with all your mind; and your neighbour as yourself.” (Lk 10:27)

**Help me, Lord, to receive your love, that I may make you manifest in loving well, both myself and my neighbour.**

## Additional scripture passages

Deuteronomy 10:12-13  
Psalm 133

## Commentary

The answer Jesus draws out of the lawyer, from the well-known commandments of God, appears simple. However, the command to love God with all our heart, soul, strength and mind will be a constant challenge, requiring a lifelong determination to learn, reflect and seek radical change in ourselves through the power of the Holy Spirit.

The instruction to love our neighbours “as ourselves” demands equal consideration. To love and value ourselves as God would wish demands intimate relationship. Is God saying that we cannot love our neighbour fully unless we love ourselves? It seems so, which is an immense challenge for so many of us. Do we recognise that we live in the glory of the love of God, whose compassionate gaze is always upon us. We are God’s beloved creation, made in God’s image, and adored.

God’s commandment to love, calls for deep commitment and means abandoning ourselves entirely, offering our hearts and minds to serve God’s will. God’s grace to us is never ending. Ask, says God, and we will receive such grace to follow Christ’s example, the one who offered himself up completely and said, “Not my will but yours be done” (Lk 22:42) demonstrating great love to all humanity, including his enemies.

We do not get to choose our neighbours. Sometimes we must cross difficult barriers to serve them, rather than walking by. Loving means being attentive to their needs, accepting who they are, with humility, encouraging their hopes and aspirations. Christian unity demands the same humility – in Christ, we are one. Let’s learn to celebrate difference and glory in Christ’s unifying life, death and resurrection – inaugurating a new way of living available to all.



## Reflection

Beloved, my heart is for you.  
I created you, I know you.  
Your name fills me with delight.  
My every action, reaction,  
thought, emotion  
and prayer for you is founded  
on love at its highest.  
Receive my compassion,  
bask in my gentleness,  
delight in my joyful kindness.  
Let me cherish you –  
let me die for you –  
may my heart become your heart.  
A renewed heartbeat,  
flowering within you,  
unfolding its gentle,  
love-soaked vision;  
a courageous, unswerving hope  
bursting with grace.  
Dear one,  
allow heaven to manifest  
in every human encounter,  
tenderising it  
with love's dignity  
and promise.

## Prayer

Lord, give us the grace to know you  
deeply,  
in order to love you entirely.  
May the gift of your Holy Spirit enable  
our eyes, ears and minds to receive  
the unconditional love with which  
you love us.  
Purify our hearts that we may always  
be ready to love our neighbour,  
however different, as ourselves.  
Through the self-giving life of Christ  
our Lord. Amen.

## Questions

**Personal:** How do you see yourself?  
How do you think God sees you?

**Local:** Does God's view of you  
change your view of those around  
you?

**Global:** How does God's view of you  
change how you respond to the news?

## Go and do

(see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personal:** Resolve to get to know a new person in your road and find a loving way to engage with them.

**Local:** Explore where you live and what opportunities there are to cross barriers to serve.

**Global:** Explore an issue regarding the displaced and dispossessed. How could you meaningfully contribute to the situation?

# DIWRNOD 3

“Pwy yw fy nghymydog?” (Luc 10:29)

**Arglwydd, agor ein calonnau tuag at y rhai nad ydym yn eu gweld.**

## Darlleniadau ychwanegol o'r Beibl

Rhufeiniaid 13:8-10

Salm 119:57-63

## Sylwadau

Roedd athro'r Gyfraith am gyfiawnhau ei hun, gan obeithio mai un o'i ffydd a'i bobl ei hun fyddai'r cymydog mae'n cael ei alw i'w garu. Greddf ddynol naturiol yw hynny. Pan fyddwn yn gwahodd pobl i'n cartrefi, byddant yn aml yn bobl sy'n debyg o ran statws cymdeithasol, agwedd tuag at fywyd a gwerthoedd â ninnau. Mae'n reddf ddynol i ffafrio'r hyn sy'n gyfarwydd. Mae hyn hefyd yn wir am ein cymunedau eglwysig. Ond mae Iesu'n arwain y cyfreithiwr, a'i gynulleidfa ehangach, yn ddyfnach i'w traddodiad eu hunain drwy eu hatgoffa o'r rhwymedigaeth i groesawu a charu pawb, waeth beth fo eu crefydd, eu diwylliant neu eu statws cymdeithasol.

Mae'r efengyl yn ein dysgu nad yw caru'r rhai sydd yn debyg i ninnau'n ddim byd arbennig. Mae Iesu'n ein tywys tuag at fersiwn lawer mwy radical o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn ddynol. Mae'r ddameg yn dangos mewn ffordd hynod weladwy

yr hyn mae Crist yn ei ddisgwyl gennym – agor ein calonnau a cherdded yn ei ffordd, gan garu eraill fel mae yntau'n ein caru ni. Mewn gwirionedd, mae Iesu'n ateb y cyfreithiwr gyda chwestiwn arall: nid “Pwy yw fy nghymydog?” bellach, ond “Pwy fu'n gymydog i'r dyn a oedd mewn angen?”

Mae'r adegau pan deimlwn yn anniogel ac ofnus yn ein herio â sefyllfa pan fydd diffyg ymddiriedaeth ac ansicrwydd yn ennill y blaen yn ein perthynas ag eraill. Dyma her y ddameg i ni heddiw: i bwy ydw i'n gymydog?

## Myfyrdod

### Ymgom y Cyfreithiwr

Rwy'n caru Cyfraith Duw.

Fy awydd dyfnaf yw cadw'r Gyfraith.

Dyma sylfaen fy mywyd a'm tragwyddoldeb.

Ond dw i am wybod sut,

dw i am ei wneud yn iawn.

Dyna pam y gofynnais

pwy ddylwn i garu fel fi fy hun.

Ac fe atebodd  
gyda stori am gyfarfyddiad rhyfedd,  
cyfarfyddiad dieithriaid.

A byddaf yn myfyrio  
ynghylch yr un a ddangosodd  
drugaredd.  
A dwi'n cofleidio'r her o fod fel  
hwnnw,  
a cherdded yng nghysgod  
y dyn oedd y tu hwnt i'n Deddf.

## Gweddi

Dduw cariad,  
sy'n ysgrifennu cariad yn ein  
calonnau,  
rho inni'r dewrder i edrych y tu hwnt i  
ni ein hunain  
a gweld y cymydog yn y rhai sy'n  
wahanol i ninnau  
a bod yn gymydog annisgwyl,  
er mwyn i ni wir ddilyn Iesu Grist –

## Cwestiynau

**Personol:** Pam ydych chi'n meddwl  
bod y cyfreithiwr wedi gofyn ei  
gwestiwn cyntaf?

**Lleol:** Pwy yw'r rhai gwrthodedig yn  
eich cymuned a pham?

**Byd-eang:** Sut allwch chi, a'ch  
eglwys neu grŵp o eglwysi, fod yn  
gymdogion i bobl mewn rhannau  
eraill o'r byd nad ydych chi'n cael  
fawr ddim cyswllt â nhw?

ein brawd a'n cyfaill,  
a'r Arglwydd, byth ac yn dragywydd.  
Amen.

## Ewch a Gwnewch

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personol:** Meddyliwch am rywun nad ydych erioed wedi meddwl  
amdanynt fel eich cymydog. Sut allwch chi fod yn gymydog iddynt mewn  
ffordd ymarferol?

**Lleol:** Meddyliwch am yr eglwys neu'r gynulleidfa agosaf at eich eglwys  
chithau yn ddaearyddol nad oes gennych fawr ddim cyswllt â nhw, a  
chysylltwch â nhw!

**Byd-eang:** Gweithredwch yn ymarferol fel eglwys neu grŵp o eglwysi i fod  
yn gymdogion i bobl Burkina Faso.

# DAY 3

“Who is my neighbour?” (Lk 10:29)

Lord, open our hearts to those we do not see

## Additional scripture passages

Romans 13:8-10

Psalm 119:57-63

## Commentary

The teacher of the law wanted to justify himself, hoping that the neighbour he is called to love is one of his own faith and people. This is a natural human instinct. When we invite people to our homes, they are quite often people who share our social status, our outlook on life and our values. There is a human instinct to prefer places of familiarity. This is also true of our Church communities. But Jesus takes the lawyer, and his wider audience, deeper into their own tradition by reminding them of the obligation to welcome and to love all, regardless of religion, culture or social status.

The Gospel teaches that loving those who are like ourselves is nothing special. Jesus steers us towards a much more radical version of what it means to be human. The parable illustrates in a very visible way what Christ expects from us – to open wide our hearts and walk in his way, loving others as

he loves us. In fact, Jesus answers the lawyer with another question: it is not “who is my neighbour?”, but “who was a neighbour to the man in need?”

Our times of insecurity and fear confront us with a reality where distrust and uncertainty come to the forefront of relationships. This is the challenge of the parable today: to whom am I a neighbour?

## Reflection

### The Lawyer's Tale

I love God's Law.

I dearly, dearly want to keep  
the Law.

It's the foundation of my life  
and my eternity.

But I want to know how,  
I want to do it right.

That's why I asked  
who it is that I should love as myself.

And he answered  
with a tale about a strange  
encounter,  
an encounter of strangers.

And I will reflect  
about the one who showed mercy.  
And I bear the challenge  
to be like that one,  
to walk  
in the outlaw's shadow.

## Prayer

God of love,  
who writes love in our hearts,  
instil in us the courage to look  
beyond ourselves  
and see the neighbour in those  
different from ourselves  
and to be the unexpected neighbour,  
that we may truly follow Jesus Christ  
our brother and our friend,  
who is Lord, for ever and ever.  
Amen.

## Questions

**Personal:** Why do you think the lawyer asked his first question?

**Local:** Who are the people who are excluded within your community and why?

**Global:** How can you, and your church or group of churches, be neighbours to people in other parts of the world with whom you have little or no contact?

## Go and do

(see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personal:** Think of a person you have never really thought of as your neighbour. How can you be a neighbour to them in a practical way?

**Local:** Think of the church/congregation geographically nearest to your own with which you have little or no contact, and make contact!

**Global:** Take practical steps as a church or group of churches to be neighbours to the people of Burkina Faso.

---

## Dyddiadau

Yn draddodiadol, cedwir yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol o 18-25 Ionawr (wyth niwrnod Pedr a Phaul). Fodd bynnag, bydd rhai grwpiau yn dewis adegau eraill o'r flwyddyn, yn enwedig oddeutu'r Pentecost, sy'n ŵyl symbolaidd o safbwynt undod yr eglwys. Penderfynwch chi, gan gymryd sylw o ffactorau lleol. I ganiatáu eu defnyddio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, nodir y defnyddiau ar gyfer y Diwrnodau â'r rhifau 1-8.

## Trefn y Gwasanaeth

Gallwch dynnu allan y drefn gwasanaeth yng nghanol y llyfryn a'i llungopïo, os mynnwch. Neu gallwch lawrlwytho'r holl adnoddau oddi ar wefan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, ac mae croeso i chi eu golygu a'u haddasu at ddefnydd lleol. Cydnabyddwch, os gwelwch yn dda, mai ffynhonnell y deunydd yw Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, adnoddau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol.

## Wal Undod Cristnogol

Os gwelwch yn dda, ychwanegwch fanylion eich digwyddiadau a ffotograffau ohonynt ynghyd â 'ch gweddïau a'ch negeseuon o undod at y 'wal' undod Cristnogol ar [www.weekofprayer.org](http://www.weekofprayer.org) drwy eu rhoi ar X (Twitter) gan ddefnyddio hashnod #wpcuwall. Bydd eich trydariadau yn ymddangos yn awtomatig (ar ôl oedi byr).

## Cydnabyddiaeth am ffotograffau

Gellir atgynhyrchu llun y clawdd mewn cysylltiad â'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2024 o gynnwys y gydnabyddiaeth briodol.

**Llun y clawr ac ar dudalen 23:** JESUS MAFA. The Good Samaritan, o Art in the Christian Tradition, prosiect dan nawdd Llyfrgell Ddiwinyddol Vanderbilt, Nashville, TN.

**Patrymau ar dudalennau 23-46:** gstudioimagen1 ar Freepik.

**Tudalen 46 a clawr cefn:** AdobeStock.

Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2024

# Trefn Addoliad

Order of Worship



*Gweddïodd Iesu ar i ni fod oll yn un. Mae Cristnogion yn dod ynghyd yn flynyddol i weddïo y bydd hyn yn cael ei wireddu. Bob blwyddyn mae Cristnogion o ran wahanol o'r byd yn dewis thema ac yn cynnig gweddïau a myfyrdodau sy'n llefaru o'u cyd-destun. Eleni rhodd eglwys Burkina Faso, gwlad yng Ngorllewin Affrica, yw deunydd ein gweddïau.*

*Dylai'r gwasanaeth hwn ddechrau gyda lluniaeth wrth i bobl gyrraedd, fel arwydd o groeso a chymdeithas.*

## Ymgynnull a Rhannu Cariad Duw

*(Gall hyn ddigwydd ar y cyd â rhannu lluniaeth)*

**Darllenwyd** Yn Burkina Faso, defnyddir calabash – gowrd wedi'i gerfio'n wag – i rannu dŵr â gwesteion sy'n cyrraedd yn flinedig o'u taith.

*Caiff dŵr o'r calabash (neu jwg) ei dywallt i bowlen.*

Mae hyn yn mynegi croeso, lletygarwch a chymdeithas. Ar ôl torri syched yr ymwelydd, gellir dechrau sgwrs, a mynegi diben yr ymweliad.

Wrth i ni gyrraedd, cawsom ein croesawu â lluniaeth ac yn awr wrth i ni ymroi i weddïo, rydym yn parhau i rannu lletygarwch a chroeso.

Gwrandawn sut y croesawodd Abraham dri ymwelydd a darparu lluniaeth ar eu cyfer.



*Jesus prayed that we may all be one. Christians gather annually to pray that this be realised. Each year Christians from a different part of the world choose a theme and offer prayers and reflections that speak from their context. This year the form of our prayers is the gift of the churches of the West African nation of Burkina Faso.*

*This service should begin with refreshments as people arrive as a symbol of welcome and fellowship.*

## Gathering and Sharing God's Love

*(this may take place where refreshments are shared)*

**Reader** In Burkina Faso, a calabash – a hollowed out gourd – is used to share water with guests who arrive tired from their journey.

*Water from the calabash (or jug) is poured into a bowl.*

It expresses welcome, hospitality and fellowship. After the visitor has been refreshed, conversation can begin, and the purpose of the visit can be expressed.

As we arrived we were welcomed with refreshments and now as we enter into prayer, we continue to share hospitality and welcome.

Let us hear how Abraham welcomed three visitors and provided for their refreshment.

# Darllenriad o'r Hen Destament

*Genesis 18:1-8*

## Emyn neu Gân

*(Yn ystod y canu, cludir y dŵr i'r fan lle digwydd yr addoliad, gyda'r gynulleidfa'n dilyn)*

## Gwahoddiad i Weddi

**Arweinydd** Daethom ynghyd i weddio am undod  
gweladwy'r Eglwys.

Felly molwn Dduw, gan ddweud:

**Cynulleidfa** **Gogoniant i ti, Dad, oherwydd rwyf yn dy ddatgelu  
dy hun yn dy greadigaeth  
ac yn galw ar bawb i fyw yn dy bresenoldeb.  
Gogoniant i ti, Grist Iesu,  
oherwydd rwyf yn rhoi dy hun yn llwyr i bob un  
ohonom ac yn ein gwahodd ninnau i wneud yr  
un modd.  
Gogoniant i ti, Ysbryd Glân,  
oherwydd rwyf yn ein casglu ynghyd mewn cariad  
ac undod.  
Gogoniant i ti, Dduw cariad,  
yn yr hwn y cawsom ein creu, ein hachub a'n  
gwneud yn un.  
Amen.**

# Old Testament Reading

*Genesis 18:1-8*

## Hymn or Song

*(during which the water is carried into the worship space, followed by the congregation)*

## Invitation to Pray

**Leader** We are gathered to pray for the visible unity of the Church.

So let us praise God, saying:

**Assembly** **Glory to you, Father, for you reveal yourself in your creation and call all people to live in your presence. Glory to you, Christ Jesus, for you give yourself entirely to each one of us and invite us to do the same. Glory to you, Holy Spirit, for you gather us together in love and unity. Glory to you, God of love, in whom we are created, redeemed and made one. Amen.**

# Litani Moliant a Diolchgarwch

**Darllenydd** Cyfeiriwn ein calonnau at Dduw mewn moliant:

Mawl a fo i ti, O Arglwydd, oherwydd rwyd ti wedi tywallt dy gariad yn ein calonnau, fel na fyddwn byth yn colli gobaith.

**Cynulleidfa** **Arglwydd, molwn di.**

**Darllenydd** Trwy dy gariad rwyd yn rhyddhau ein bywydau oddi wrth ofn ac yn ymgeleddu ein calonnau dolurus a chlwyfedig.

**Cynulleidfa** **Arglwydd, molwn di.**

**Darllenydd** Am bawb sy'n hau hadau tosturi a chariad tuag at eu cymdogion ledled y byd.

**Cynulleidfa** **Arglwydd, molwn di.**

**Darllenydd** Dduw tragwyddol, diolchwn i ti am rodd Iesu dy Fab, Gwaredwr yr holl greadigaeth.

**Cynulleidfa** **Arglwydd, diolchwn i ti.**

**Darllenydd** Am y gras sy'n adnewyddu ac am flodeuo ffydd, gobaith a chariad.

**Cynulleidfa** **Arglwydd, diolchwn i ti.**

**Darllenydd** Am y ffydd a dderbyniasom oddi wrth yr apostolion, am weddi Iesu am undod ac am rodd Newyddion Da iachawdwriaeth.

# Litany of Praise and Thanksgiving

- Reader** Let us turn our hearts to God in praise:  
Praise to you Lord for you have poured out  
your love into our hearts so that we never lose hope.
- Assembly** **Lord, we praise you.**
- Reader** By your love you free our lives from fear and dress our  
wounded and injured hearts.
- Assembly** **Lord, we praise you.**
- Reader** For all who sow seeds of compassion and love for their  
neighbours around the world.
- Assembly** **Lord, we praise you.**
- Reader** Eternal God, we thank you for the gift of Jesus your  
Son, the Redeemer of all creation.
- Assembly** **Lord, we thank you.**
- Reader** For the grace that renews and the blossoming of faith,  
hope and love.
- Assembly** **Lord, we thank you.**
- Reader** For the faith we received from the apostles, for Jesus'  
prayer for unity and for the gift of the Good News  
of salvation.

**Cynulleidfa** Arglwydd, diolchwn i ti.

**Darllenydd** Dduw grasol, am haelioni dy gariad tuag at bawb, cariad mor berffaith, cariad sydd y tu hwnt i'n dealltwriaeth.

**Cynulleidfa** Arglwydd, ymhyfrydwn ynot.

**Darllenydd** Am anfon dy Fab, Iesu Grist, i'r byd.

**Cynulleidfa** Arglwydd, ymhyfrydwn ynot.

**Darllenydd** Am barhau i lenwi ein bywydau â'th gariad drwy'r Ysbryd Glân.

**Cynulleidfa** Arglwydd, ymhyfrydwn ynot.

## Emyn o Fawl

### Gweddiau Cyffes

**Arweinydd** Deuwn ger dy fron, o Dduw, i gyffesu ein pechodau:

**Darllenydd** Trwy geisio hapusrwydd heb Dduw ac anwybyddu'r gorchymyn i garu, rydym wedi troi oddi wrth ein cymydog. Mae ein hunanoldeb a'n hawydd i feddu a rheoli yn ein gwahanu oddi wrth Dduw.

*Tawelwch*

**Darllenydd** Dduw trugarog:

**Assembly** Lord, we thank you.

**Reader** Gracious God, for the generosity of your love for all people, a love so perfect, it is beyond our comprehension.

**Assembly** Lord, we adore you.

**Reader** For sending your Son, Jesus Christ, into the world.

**Assembly** Lord, we adore you.

**Reader** For continuing to fill our lives with your love through the Holy Spirit.

**Assembly** Lord, we adore you.

## Hymn of Praise

## Prayers of Confession

**Leader** We come before you, O God, to confess our sins:

**Reader** By seeking happiness without God and ignoring the command to love, we have turned from our neighbour. Our selfishness and desire to possess and control separate us from God.

*Silence*

**Reader** Merciful God:

**Cynulleidfa** maddau i ni a'n hiachau.

**Darllenydd** Pan fyddwn yn anwybyddu dynoliaeth pobl eraill ac yn adeiladu muriau sy'n gwahanu, byddwn yn hau hadau casineb a thrais, gan ymwrthod â gorchymyn yr Arglwydd i garu.

*Tawelwch*

**Darllenydd** Dduw trugarog:

**Cynulleidfa** maddau i ni a'n hiachau.

**Darllenydd** Pan fydd ein diffyg tosturi yn caledu ein calonnau, ni fyddwn bellach yn gweld Iesu yn y rhai sy'n wahanol i ninnau.

*Tawelwch*

**Darllenydd** Dduw trugarog:

**Cynulleidfa** maddau i ni a'n hiachau.

**Darllenydd** Pan na fyddwn yn agor ein calonnau a'n meddyliau i gariad diderfyn a diamod Duw, daw'r byd dan gysgod hunanoldeb, trais a dihidrwydd.

*Tawelwch*

**Darllenydd** Dduw trugarog:

**Cynulleidfa** maddau i ni a'n hiachau.

**Arweinydd** Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, trugarha wrthym, maddau i ni ein pechodau a thrawsffurfia ni trwy dy Ysbryd Glân.



**Assembly** forgive and heal us.

**Reader** When we disregard the humanity of others and build walls of division, we sow seeds of hatred and violence, abandoning the Lord's command to love.

*Silence*

**Reader** Merciful God:

**Assembly** forgive and heal us.

**Reader** When our lack of compassion hardens our hearts, we no longer see Jesus in those different from ourselves.

*Silence*

**Reader** Merciful God:

**Assembly** forgive and heal us.

**Reader** When we fail to open our hearts and minds to God's infinite and unconditional love, the world is darkened by selfishness, violence, and indifference.

*Silence*

**Reader** Merciful God:

**Assembly** forgive and heal us.

**Leader** God and Father of our Lord Jesus Christ have mercy on us, forgive us our sins and transform us by your Holy Spirit.

**Cynulleidfa** Dduw Sanctaidd! Sanctaidd a Chadarn! Sanctaidd  
ac Anfeidrol, trugarha wrthym!

Dduw Sanctaidd! Sanctaidd a Chadarn! Sanctaidd  
ac Anfeidrol, trugarha wrthym!

Dduw Sanctaidd! Sanctaidd a Chadarn! Sanctaidd  
ac Anfeidrol, trugarha wrthym!

## Salm ymatebol

*Salm 138*

**Darllenyydd** Clodforaf di â'm holl galon,  
canaf fawl i ti yng ngŵydd duwiau.  
Ymgrymaf tuag at dy deml sanctaidd,  
a chlodforaf dy enw am dy gariad a'th ffyddlondeb,  
oherwydd dyrchefaist dy enw a'th air uwchlaw popeth.

**Cynulleidfa** Pan elwais arnat, atebaist fi.

**Darllenyydd** Pan elwais arnat, atebaist fi,  
a chynyddaist fy nerth ynof.  
Bydded i holl frenhinoedd y ddaear dy glodfori,  
O Arglwydd,  
am iddynt glywed geiriau dy enau.

**Cynulleidfa** Pan elwais arnat, atebaist fi.

**Darllenyydd** Bydded iddynt ganu am ffyrdd yr Arglwydd,

**Assembly** Holy God! Holy and Strong! Holy and Immortal,  
have mercy on us!

Holy God! Holy and Strong! Holy and Immortal,  
have mercy on us!

Holy God! Holy and Strong! Holy and Immortal,  
have mercy on us!

## Responsorial Psalm

### *Psalm 138*

**Reader** I give you thanks, O Lord, with my whole heart;  
before the gods I sing your praise;  
I bow down towards your holy temple  
and give thanks to your name for your steadfast love  
and your faithfulness;  
for you have exalted your name and your word  
above everything.

**Assembly** **On the day I called, you answered me.**

**Reader** On the day I called, you answered me;  
you increased my strength of soul.  
All the kings of the earth shall praise you, O Lord,  
for they have heard the words of your mouth.

**Assembly** **On the day I called, you answered me.**

**Reader** They shall sing of the ways of the Lord,

oherwydd mawr yw gogoniant yr Arglwydd.  
Er bod yr Arglwydd yn uchel, fe gymer sylw o'r isel,  
ac fe ddarostwng y balch o bell.

**Cynulleidfa** **Pan elwais arnat, atebaist fi.**

**Darllenydd** Er imi fynd trwy ganol cyfyngder, adfywiaist fi;  
estynnaist dy law yn erbyn llid fy ngelynion,  
a gwaredaist fi â'th ddeheulaw.  
Bydd yr Arglwydd yn gweithredu ar fy rhan.  
O Arglwydd, y mae dy gariad hyd byth;  
paid â gadael gwaith dy ddwylo.

**Cynulleidfa** **Pan elwais arnat, atebaist fi.**

**Darllenydd** Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân,

**Cynulleidfa** **fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

*Gall bonlllef ragflaenu darllen yr Efengyl*

## Darlleniad o'r Efengyl

*Luc 10:25-37*

## Emyn

for great is the glory of the Lord.  
For though the Lord is high, he regards the lowly;  
but the haughty he perceives from far away.

**Assembly**    **On the day I called, you answered me.**

**Reader**        Though I walk in the midst of trouble,  
you preserve me against the wrath of my enemies;  
you stretch out your hand,  
and your right hand delivers me.  
The Lord will fulfil his purpose for me;  
your steadfast love, O Lord, endures for ever.  
Do not forsake the work of your hands.

**Assembly**    **On the day I called, you answered me.**

**Reader**        Glory be to the Father and to the Son and to the  
Holy Spirit;

**Assembly**    **As it was in the beginning, is now,  
and ever shall be, world without end. Amen.**

*The reading of the Gospel may be preceded by an acclamation*

## Gospel Reading

*Luke 10:25-37*

## Hymn

# Pregeth / Homili

*Gydag ennyd o dawelwch neu emyn i ddilyn.*

## Dathlu cariad

*(adnodau o 1 Corinthiaid 13)*

*Darlennir yn antiffoniaidd, gyda hanner y gynulleidfa i ddarllen rhan gyntaf pob adnod a'r hanner arall i ddarllen yr ail ran.*

- I Os llefaraf â thafodau meidrolion ac angylion,  
a heb fod gennyf gariad, efydd swnllyd ydwyf,  
neu symbal aflafar.
- II Ac os oes gennyf ddawn proffwydo, ac os wyf yn  
gwybod y dirgelion i gyd, a phob gwybodaeth,  
ac os oes gennyf gymaint o ffydd nes gallu symud  
mynyddoedd, a heb fod gennyf gariad, nid wyf ddim.
- I Ac os rhof fy holl feddiannau i borthi eraill,  
ac os rhof fy nghorff yn aberth, a hynny er mwyn  
ymffrostio, a heb fod gennyf gariad, ni wna hyn ddim  
lles imi.
- II Y mae cariad yn amyneddgar; y mae cariad yn  
gymwynasgar;  
nid yw cariad yn cenfigennu, nid yw'n ymffrostio, nid  
yw'n ymchwyddo.
- I Nid yw'n gwneud dim sy'n anweddus, nid yw'n ceisio  
ei ddibenion ei hun, nid yw'n gwylltio, nid yw'n cadw  
cyfrif o gam.
- II Nid yw'n cael llawenydd mewn anghyfiawnder, ond y  
mae'n cydlawenhau â'r gwirionedd.

# Sermon / Homily

*Followed by a moment of silence or a hymn.*

## Affirmation of Love

*(verses from 1 Corinthians 13)*

*Read antiphonally, with one half of the congregation reading the first part of each stanza and the other half reading the second.*

- I            If I speak in the tongues of mortals and of angels, but do not have love, I am a noisy gong or a clanging cymbal.
- II            And if I have prophetic powers, and understand all mysteries and all knowledge, and if I have all faith, so as to remove mountains, but do not have love, I am nothing.
- I            If I give away all my possessions, and if I hand over my body so that I may boast, but do not have love, I gain nothing.
- II            Love is patient; love is kind; love is not envious or boastful or arrogant or rude.
- I            It does not insist on its own way; it is not irritable or resentful;
- II            It does not rejoice in wrongdoing, but rejoices in the truth.

- I Y mae'n goddef i'r eithaf, yn credu i'r eithaf, yn gobeithio i'r eithaf, yn dal ati i'r eithaf.
- II Nid yw cariad yn darfod byth. Ond proffwydoliaethau, fe'u diddymir hwy; a thafodau, bydd taw arnynt hwy; a gwybodaeth, fe'i diddymir hithau.
- I Oherwydd anghyflawn yw ein gwybod ni, ac anghyflawn ein proffwydo ni. Ond pan ddaw'r hyn sy'n gyflawn, fe ddiddymir yr hyn sy'n anghyflawn.
- II Mewn gair, y mae ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn, yn aros.

**PAWB** A'r mwyaf o'r rhain yw cariad.

## Emyn

*Gellir hefyd dderbyn y casgliad ar yr adeg hon.*

## Ymbiliau

- Arweinydd** Cawsom ein galw i garu Duw a'n cymydog fel ni ein hunain. Wrth i ni adnewyddu ein hymrwymiad i'r alwad hon, bydded i gariad gryfhau ein hundod fel Cristnogion.
- Darllenydd** Dduw'r cariad diderfyn, gweddïwn y bydd pawb yn dod i adnabod dy drugaredd di-ben-draw a'th gariad anfeidrol.
- Cynulleidfa** Llenwa ni a'th gariad. Gwna ni'n un ynot ti.



- I It bears all things, believes all things, hopes all things, endures all things.
- II Love never ends. But as for prophecies, they will come to an end; as for tongues, they will cease; as for knowledge, it will come to an end.
- I For we know only in part, and we prophesy only in part; but when the complete comes, the partial will come to an end.
- II And now faith, hope, and love abide, these three;
- ALL And the greatest of these is love.**

## Hymn

*This moment can also be used as an opportunity to gather the offering.*

## Prayers of Intercession

- Leader** We have been called to love God and our neighbour as ourselves. As we renew our commitment to this calling, may love strengthen our unity as Christians.
- Reader** God of boundless love, we pray that all people may come to know your unlimited mercy and your infinite love.
- Assembly** **Fill us with your love. Make us one in you.**

**Darllenydd** Dduw, ein bugail, rydym ni sydd ar wasgar, yn deisyf arnat ein casglu i mewn i un gorlan.

**Cynulleidfa** **Llenwa ni a'th gariad. Gwna ni'n un ynot ti.**

**Darllenydd** Dduw cenhadaeth, bywiocá ni drwy dy Ysbryd, a'n hanfon eto i fod yn oleuni'r byd a halen y ddaear.

**Cynulleidfa** **Llenwa ni a'th gariad. Gwna ni'n un ynot ti.**

**Darllenydd** Dduw ein taith, yn ein gwendid a'n hofn rydym yn aml yn mynd heibio o'r ochr arall. Rho i ni ras i fentro cofleidio'r dieithryn mewn angen, gan ofalu am glwyfau corff, meddwl ac ysbryd.

**Cynulleidfa** **Llenwa ni a'th gariad. Gwna ni'n un ynot ti.**

**Darllenydd** Dduw cymundeb, gweddiwn am yr ewyllys i weithio gyda'n gilydd er dy ogoniant gan ledaenu Newyddion Da iachawdwriaeth ar gyfer pawb.

**Cynulleidfa** **Llenwa ni a'th gariad. Gwna ni'n un ynot ti.**

## Gweddi'r Arglwydd

**Arweinydd** Unwn ein gweddiâu â gweddi Iesu, yr hwn a'n dysgodd, pan weddiom, i ddweud

**Cynulleidfa** **Ein Tad...** *(yn ôl yr arfer yn lleol)*

**Reader** God, our shepherd, we who are scattered ask you to gather us into one fold.

**Assembly** **Fill us with your love. Make us one in you.**

**Reader** God of mission, enliven us by your Spirit and send us again to be the light of the world and the salt of the earth.

**Assembly** **Fill us with your love. Make us one in you.**

**Reader** God of our journey, in our weakness and fear we often pass by on the other side. Grant us grace to risk embracing the stranger in need, tending their wounds of body, mind and spirit.

**Assembly** **Fill us with your love. Make us one in you.**

**Reader** God of communion, we pray that we may work together for your greater glory and spread the Good News of salvation for all.

**Assembly** **Fill us with your love. Make us one in you.**

## The Lord's Prayer

**Leader** We join our prayers to that of Jesus, who taught us when we pray to say

**Assembly** **Our Father...** *(according to local custom)*

## Eryn

### Gweddî i Gloi

*(o weddî feunyddiol am Undod Cristnogol Cymuned Chemin Neuf)*

**Cynulleidfa** Arglwydd Iesu, a weddiodd y byddai pawb yn un, gweddïwn arnat ti am undod yr holl Gristnogion, yn ôl dy ewyllys, yn dy ffyrdd di.  
Bydded i'th Ysbryd ein galluogi i adnabod y dioddefaint a achosir gan raniad,  
i weld ein pechod ac i obeithio y tu hwnt i bob gobaith. Amen

### Yr Anfon Allan a'r Fendith

*(yn ystod hyn gellir codi'r bowlen o ddŵr neu dynnu sylw ati mewn rhyw ffordd arall)*

**Arweinydd** Rydych wedi'ch adnewyddu gan ddŵr y bywyd, wedi'ch uno yng Nghrist ac wedi'ch bywiocáu gan yr Ysbryd Glân: ewch allan i garu Duw, a'ch cymydog fel chi eich hun.  
A bendith Duw Hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chi yn wastad.

**Cynulleidfa** Amen! Diolch a fo i Dduw!

## Eryn

## Hymn

## Closing Prayer

*(from the Daily Prayer for Christian Unity of the Chemin Neuf Community)*

**Assembly** Lord Jesus, who prayed that all might be one, we pray to you for the unity of all Christians, according to your will, according to your means. May your Spirit enable us to experience the suffering caused by division, to see our sin and to hope beyond all hope. Amen.

## Sending and Blessing

*(during which the bowl of water may be lifted up or referenced in some way)*

**Leader** You have been refreshed by the water of life, united in Christ and enlivened by the Holy Spirit: go forth to love God, and your neighbour as yourself. And the blessing of God almighty, the Father, the Son and the Holy Spirit, be upon you and remain with you always.

**Assembly** Amen! Thanks be to God!

## Hymn



Daw'r dyfyniadau Ysgrythurol o'r Beibl Cymraeg Newydd, Argraffiad Diwygiedig, Hawlfraint © 2004 gan Gymdeithas y Beibl. Defnyddiwyd gyda chaniatâd Cymdeithas y Beibl. Cedwir pob hawl ledled y byd.

**Cydnabyddiaeth am ffotograffau:**

Llun y clawr: JESUS MAFA. The Good Samaritan, o Art in the Christian Tradition, prosiect dan nawdd Llyfrgell Ddiwinyddol Vanderbilt, Nashville, TN.  
Patrymau cefndir: gstudioimagen1 ar Freepik.  
Calon a Chroes: AdobeStock.



**Bible verses** from the New Revised Standard Version Bible: Anglicized Edition, copyright 1989, 1995, Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used by permission. All rights reserved.

**Photo credits:**

Cover image: JESUS MAFA. The Good Samaritan, from Art in the Christian Tradition, a project of the Vanderbilt Divinity Library, Nashville, TN.  
Textures: gstudioimagen1 on Freepik.  
Heart and Cross: AdobeStock.

---

## Dates

The Week of Prayer for Christian Unity is traditionally observed from 18th to 25th January (the octave of St Peter and St Paul). However, some groups choose other times of the year, particularly around Pentecost which is a symbolic date for the unity of the Church. Do make your own decision, taking local factors into account. To allow for use at any time in the year, the Days material uses the notation 1-8.

## Order of service

The order of service in the centre of the pamphlet can be pulled out and photocopied if you wish. Alternatively, all resources can be downloaded from the CTBI website and you are welcome to further edit or adapt them for local use. Please acknowledge the source of material as Churches Together in Britain and Ireland, Week of Prayer for Christian Unity resources.

## Christian unity wall

Please add details and photos of your events, prayers and messages of unity to the Christian unity 'wall' at [weekofprayer.org](http://weekofprayer.org) by posting to X (Twitter) using the [#wpkuwall](https://twitter.com/hashtag/wpkuwall) hashtag. Posts appear automatically (after a slight delay).

## Photo credits

The cover image is free to reproduce for use with the Week of Prayer for Christian Unity 2024 with the appropriate acknowledgement.

**Cover photo and p23:** JESUS MAFA. The Good Samaritan, from Art in the Christian Tradition, a project of the Vanderbilt Divinity Library, Nashville, TN.

**Textures pp23-46:** gstudioimagen1 on Freepik.

**P46 and Back cover:** AdobeStock.

# DIWRNOD 4

Pan welodd ef, aeth heibio o'r ochr arall. (Luc 10:31)

## Na fydded i ni byth gerdded heibio'r rhai sydd mewn angen.

### Darlleniadau ychwanegol o'r Beibl

Eseia 58:4-8a  
Salm 34:15-22

### Sylwadau

Efallai fod gan yr offeiriad a'r Lefiad a gerddodd heibio yr ochr arall resymau crefyddol dros beidio â chynorthwyo. Mae dechrau'r testun ar gyfer yr Wythnos Weddi yn dweud wrthym sut roedd athro'r Gyfraith eisiau cyfiawnhau ei hun. Byddai'r offeiriad a'r Lefiad yn y ddameg wedi teimlo bod cyfiawnhad i'w hymddygiad. Ac eto ar sawl achlysur, mae Iesu'n beirniadu arweinwyr crefyddol am osod rheolau crefydd o flaen y rhwymedigaeth bob amser i wneud daioni.

Mae'r proffwyd Eseia yn rhoi'r un anogaeth i ni ym mhennod 58: mae'n well gwneud daioni yn hytrach na dim ond edrych yn dda. Fel Cristnogion, pa mor bell ydyn ni'n barod i fynd y tu hwnt i gonfensiynau da? Weithiau gall y confensiynau ymddangosiadol ddibwys hyn ddod yn hollbwysig, gan dynnu ein sylw oddi wrth yr hyn sydd wir o bwys. Fe barlysodd pandemig Covid-19 ein diwylliannau eglwysig arferol difeddwl a thanseilio ein trefniadau arferol. Ond mae'n

debyg bod llawer ohonom, os ydym yn onest, wedi dychwelyd i'r arferion hynny.

Yn y ddameg hon mae Iesu yn ein herio nid yn unig i wneud daioni, ond hefyd i ehangu ein gweledigaeth. Nid ydym yn dysgu beth sy'n dda ac yn sanctaidd yn unig oddi wrth y rhai sy'n rhannu ein hagweddu athrawiaethol neu grefyddol, ond yn aml oddi wrth y rhai sy'n wahanol i ni. Mae cariad a goleuni i'w gweld yn ein gelyn hefyd. Yn aml y sawl na ddisgwyliwn yw'r Samariad Trugarog. Pan fyddwn yn agor ein llygaid i weld y modd y datguddir cariad Duw gan ein cyd-Gristnogion, fe gawn ein tynnu'n agosach atynt ac o'r herwydd cawn ein tynnu i undod dyfnach â nhw.

### Myfyrdod

I lawr y ffordd honno ar yr ochr draw byddwch yn canfod llaid cysegredig ffosydd sanctaidd lle mae golau wedi ei ymgnewdoli wedi'i ymgorffori yn ein gelynon



fel rhodd a gyflwynir  
yn gudd mewn blwch.  
O'i agor, canfyddwn ein cymydog.

## Gweddi

Arglwydd Iesu Grist,  
na fydded i'n llygaid edrych i ffwrdd,  
ond bod yn llydan agored i'r byd  
o'n cwmpas.  
Wrth i ni deithio drwy fywyd,  
bydded i ni oedi ac estyn dwylo, gan  
ymgeleddu'r clwyfedig,  
ac wrth wneud hynny brofi dy  
bresenoldeb dithau ynddynt.  
Rho i ni ymrwymiad o'r newydd i  
deithio gyda thithau tuag at  
undod. Amen.

## Cwestiynau

**Personol:** Beth sy'n eich llesteirio  
rhag gwneud daioni?

**Lleol:** Pwy yw'r bobl sy'n ymddwyn  
fel y Samariad Trugarog yn eich  
cymuned?

**Byd-eang:** Sut allech chi ehangu  
eich gweledigaeth o fod yn gymydog  
da yn y cyd-destun byd eang?

## Ewch a Gwnewch

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personol:** Meddylwch am eich cylch eich hun o berthnasoedd a'u  
daearyddiaeth. Dewiswch gerdded heddiw trwy ardal arall o'r dref. Beth  
ydych chi'n ei weld a phwy ydych chi'n sylwi arnynt?

**Lleol:** Chwiliwch am brosiect mewn cymuned leol yn eich ardal sy'n  
cefnogi pobl na chânt eu gweld yn aml. Ystyriwch ym mha ffyrdd y gallwch  
chi gynorthwyo gyda'r gwaith a'i hybu.

**Byd-eang:** Neilltuwch amser i ymchwilio i'r gwrthdaro yn Burkina Faso a'r  
heriau sy'n wynebu'r Eglwys yno.

# DAY 4

When he saw him, he passed by on the other side. (Lk 10:31)

## May we never turn away from those in need

### Additional scripture passages

Isaiah 58:4-8a

Psalms 34:15-22

### Commentary

The priest and Levite who walked by on the other side may have had religious reasons for not helping. The beginning of the text for the Week of Prayer tells us how the teacher of the law wanted to justify himself. The priest and the Levite in the parable would have felt justified in what they had done. Yet on many occasions, Jesus is critical of religious leadership for placing the rules of religion ahead of the obligation always to do good.

The prophet Isaiah gives us this same encouragement in chapter 58; it is better to do good than just to look good. As Christians, how far are we prepared to go beyond good conventions? Sometimes these seemingly trivial conventions can become dominant, distracting us from what really matters. The Covid-19 pandemic interrupted our ecclesial and culturally conditioned short-sightedness, pulling the rug

from under our routines. But many of us, if we're honest, may have returned to those routines.

This parable of Jesus not only challenges us to do good, but also to widen our vision. We do not learn what is good and holy only from those who share our confessional or religious worldview, but often from those who are different from us. Light and love are embodied in our enemy too. The Good Samaritan is often the one we do not expect. When we open our eyes to see how God's love is revealed by our fellow Christians, we are drawn closer to them and so are drawn into deeper union with them.

### Reflection

Down that road  
on the other side  
you'll find sacred dirt  
holy ditches  
where light is incarnate

embodied in our enemies  
like a gift presented  
blinded to what's inside  
unwrapped, we find our neighbour.

## Prayer

Lord Jesus Christ,  
may our eyes not look away,  
but be wide open to the world  
around us.  
As we travel through life,  
may we stop and reach out,  
bind up the wounded  
and in so doing experience your  
presence in them.  
Give us a renewed commitment  
to journey with you towards unity.  
Amen.

## Questions

**Personal:** What gets in the way of you doing good?

**Local:** Who are the people who behave like the Good Samaritan in your community?

**Global:** How can you widen your vision of being a good neighbour globally?

## Go and do

(see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personal:** Reflect on your own circle of relationships and their geography. Choose today to walk through another part of town. What do you see and who do you notice?

**Local:** Seek out a project in a local community near you that supports people often not seen. Look for ways in which you can support and encourage their work.

**Global:** Take some time to research the conflict in Burkina Faso and the challenges facing the Church there.

# DIWRNOD 5

Aeth ato a rhwymo ei glwyfau, gan arllwys olew a gwin arnynt.  
(Luc 10:34)

## Arglwydd, cynorthwya ni i weld y clwyfau a chanfod gobaith.

### Darlleniadau ychwanegol o'r Beibl

Joel 2:23-27

Salm 104:14-15, 27-30

### Sylwadau

Gwnaeth y Samariad Trugarog yr hyn a allai o'i adnoddau ei hun: tywalltodd olew a gwin, a rhwymo clwyfau'r dyn a'i osod ar ei anifail ei hun. Aeth y Samariad ymhellach fyth drwy addo talu am ofal y clwyfedig. Pan fyddwn yn gweld y byd drwy lygaid y Samariad, gall pob sefyllfa fod yn gyfle i gynorthwyo'r rhai sydd mewn angen. Dyma lle mae cariad yn amlygu ei hun. Mae esiampl y Samariad Trugarog yn ein cymell i ofyn i'n hunain sut rydym i ymateb i'n cymydog. Rhoddodd yntau win ac olew, gan adfer y dyn a rhoi gobaith iddo. Beth allwn ni ei roi, fel y gallwn ni gyfrannu at waith Duw yn iacháu byd sydd wedi torri?

Daw natur doredig y byd yn amlwg mewn ansicrwydd, ofn, drwgdybiaeth a rhaniadau. Er cywilydd, mae'r rhaniadau hyn hefyd yn bodoli rhwng Cristnogion. Er ein bod yn ceisio iachâd, cymod a chysur mewn sacramentau neu ddefodau eraill (gan ddefnyddio olew a gwin yn aml), rydym yn

parhau i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n achosi rhaniadau rhyngom, gan glwyfo Corff Crist. Mae iachau rhaniadau rhwng Cristnogion yn hyrwyddo iachâd y cenedloedd.

Wrth geisio iachâd, mae'n rhaid i ni gydnabod mor fregus ydyn ninnau ein hunain— sut y bydd eraill yn gwybod sut i ddilyn llwybr iachâd os nad ydym ninnau'n fodlon cydnabod ein clwyfau ni? Sut ydyn ni i ysgogi ymddygiad mor ddewr, gan gydnabod bod yna gost iddo?

### Myfyrdod

Disgynnodd y bara'n doredig, briwsion yn gollwng o'r bwrdd a'u sathru dan draed.

Y gwin yn gwaedu drwy'r lliain lle gorlifodd y cwpanau. Mae ôl-flas y straeon a rannwyd yn sychu yn y geg.

Marciau annileadwy, tystiolaeth o'r lle buom yn cydeistedd dro, ond beth wedyn?

Mae eraill angen eu siâr –  
gwin i lonni'r galon,  
olew i eneinio er iachau,  
bara i nerthu.

Mae angen i ni ailosod ein byrddau,  
dod o hyd i sedd anghyfarwydd,  
a phan beidia'r gerddoriaeth  
faint fydd y bil?

## Gweddi

Dduw graslon,  
ti, ffynhonnell pob cariad a daioni:  
galluoga ni i adnabod anghenion ein  
cymydog.  
Cynorthwya ni i fod yn onest  
ynghylch ein hangen am iachâd.  
Newidia ni fel y gallwn garu pawb.  
Cynorthwya ni i oresgyn rhwystrau  
rhaniad,  
fel y gallwn adeiladu byd heddychlon  
er lles pawb.

## Cwestiynau

**Personol:** Pa glwyfau ydych chi'n eu gweld?

**Lleol:** Ble ydych chi'n gweld arwyddion gobaith yn eich cymuned?

**Byd-eang:** Beth allwn ni ei roi, fel y gallwn ninnau gyfrannu at waith Duw yn iachau byd sydd wedi torri?

Diolch i ti am dy waith yn adnewyddu'r greadigaeth ac am ein harwain at ddyfodol sy'n llawn gobaith.  
Ti wyt Arglwydd y cyfan, ddoe, heddiw ac am byth. Amen.

## Ewch a Gwnewch

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personol:** Pa fannau lle mae gwahaniaethau neu densiynau yn eich cymunedau y gallech yn ymarferol geisio eu deall yn ddyfnach? Dechreuwch drafodaeth dosturiol a haelionus â phobl eraill am hynny.

**Lleol:** Pa grwpiau sydd eisoes yn bodoli yn eich ardal sy'n gweithredu'n ymarferol i iachau mewn rhyw ffordd? Ceisiwch ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â nhw.

**Byd-eang:** Neilltuwch amser fel grŵp eglwysig i ofalu am y ddaear ac i gyfrannu tuag at iachau byd sydd wedi torri ("yr wyt yn adnewyddu wyneb y ddaear" Salm 104:30). Wrth i chi wneud hyn, ystyriwch effaith eich ffordd o fyw ar rannau eraill o'r byd.

# DAY 5

**He went to him and bandaged his wounds, having poured oil and wine on them. (Lk 10:34)**

## Lord, help us see the wounds and find hope

### Additional scripture passages

Joel 2:23-27

Psalm 104:14-15, 27-30

### Commentary

The Good Samaritan did what he could out of his own resources: he poured oil and wine and bandaged the man's wounds and put him on his own animal. The Samaritan went further still by promising to pay for the man's care. When we see the world through the Samaritan's eyes, every situation can be an opportunity to help those in need. This is where love manifests itself. The example of the Good Samaritan motivates us to ask ourselves how to respond to our neighbour. He gave wine and oil, restoring the man and giving him hope. What can we give, so that we can be a part of God's work of healing a broken world?

This brokenness shows itself in our world through insecurity, fear, distrust and division. Shamefully, these divisions also exist between Christians. Though we celebrate sacraments or other rituals of healing, reconciliation and

consolation (often using oil and wine), we persist in behaviours that cause division, wounding the Body of Christ. The healing of our Christian divisions promotes the healing of the nations.

In this process of healing, we have to recognise our own vulnerability – how will others know how to engage in a journey of healing if we are unwilling to bare our wounds? How do we empower such courageous behaviour, recognising there is a cost?

### Reflection

The bread lies broken  
crumbs spilled from the table  
trampled underfoot.  
Wine stains bled through linen  
where cups overflowed.  
The lingering taste of stories shared  
grows stale in the mouth.

Indelible marks,  
evidence of where we sat together  
for a time,  
but what now?

Others need their share –  
wine to gladden soul  
oil to anoint and heal  
bread to strengthen.

We need to reset our tables  
to find an unfamiliar seat,  
and when the music stops  
what will it have cost?

## Prayer

Gracious God,  
You who are the source of all love  
and goodness:  
enable us to recognise the needs of  
our neighbour.  
Help us to be honest about our need  
for healing.

Change us, so that we can love all.  
Help us to overcome the obstacles  
of division,  
that we might build a world of peace  
for the common good.  
Thank you for your renewing work  
in creation  
and for leading us to a future which  
is full of hope:  
you who are Lord of all, yesterday,  
today and forever. Amen.

## Questions

**Personal:** What wounds do  
you see?

**Local:** Where are you recognising  
signs of hope in your community?

**Global:** What can we give, so that  
we can be part of God's work of  
healing a broken world?

## Go and do

(see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personal:** What areas of difference or tension in your communities  
might you meaningfully seek deeper understanding around? Begin a  
compassionate and generous conversation with some others about this.

**Local:** What groups already exist in your area that are actively involved in  
healing in some way? Explore meaningful ways of engaging with them.

**Global:** Take time as a church group to tend to the earth and be part of  
healing a broken world ("renew the face of the ground" Ps: 104). As you do  
this consider the impact of your lifestyle on other parts of the world.

# DIWRNOD 6

Gosododd ef ar ei anifail ei hun, a'i arwain i lety, a gofalu amdano.  
(Luc 10:34)

## Arglwydd, gwna'n heglwysi'n 'letyau' sy'n croesawu'r rhai sydd mewn angen.

### Darllenïadau ychwanegol o'r Beibl

Genesis 18:4-5  
Salm 5:11-12

### Sylwadau

Gofalwyd am y dyn a syrthiodd i blith lladron gan Samariad. Wynebodd y Samariad ei ofn a'i ragfarn ei hun a chamu'r tu hwnt iddo. Gwelodd ddieithryn mewn angen ac aeth ag ef i lety. "Trannoeth tynnodd ddau ddarn arian allan a'u rhoi i'r gwesteiwr, gan ddweud, 'Gofala amdano. Os byddi wedi gwario rhywbeth dros ben, fe dalaf fi yn ôl iti pan ddychwelaf.'" (Luc 10:35)

Mewn unrhyw gymdeithas ddynol, mae lletygarwch a chydsefyll yn hanfodol. Mae hynny'n gofyn croesawu dieithriaid, ymfudwyr a phawb sy'n ddigartref. Gall lletygarwch o'r fath olygu aberth, ond mae'n dystiolaeth bwysig i'r Efengyl, yn enwedig mewn cyd-destunau lle mae amrywiaeth grefyddol a diwylliannol. Wrth wynebu ansicrwydd, amheuaeth ac weithiau trais, byddwn yn tueddu i ddrwgdybio ein cymdogion a bydd cynnig a derbyn lletygarwch yn dod yn anoddach.

Mae croesawu'r 'rhywun arall', a derbyn croeso yn ein tro, wrth wraidd deialog a gweithredu eciwmenaidd. Mae Cristnogion yn cael eu herio i droi ein heglwysi'n lletyau, manau agored a chroesawgar lle gall ein cymdogion ganfod Crist. Mae lletygarwch o'r fath yn arwydd o'r cariad sydd gan ein heglwysi tuag at ei gilydd ac at bawb.

Pan fyddwn ninnau, ddilynwyr Crist, yn camu'r tu hwnt i'n traddodiadau ac yn dewis cynnig lletygarwch eciwmenaidd, rydyn ni'n peidio â bod yn ddieithriaid ac yn dechrau bod yn gymdogion da.

### Myfyrdod

Beth sy'n fy rhwystro rhag gweithredu?

Beth sy'n rhoi taw ar ein hundod? Glynu wrth yr hyn sy'n gyfarwydd, wedi'n parlysu gan ofn newid, gwrthodiad a beirniadaeth.

Neu weithiau dim ond diffyg amser.



Cyfiawnhau dewis cerdded heibio,  
gan hepgor trysor.

Lle mae Crist yn wyneb y llall?  
Yn fy achub, fy nghrosawu ac  
yn fy nerbyn.

Yn ymuno â mi mewn gweddi,  
addoli a thystio.

Yn fy ngweld i wrth i mi edrych ym  
myw llygaid y rhai sydd  
mewn angen.

Yr em annisgwyl sy'n adlewyrchu  
rhywbeth o wyneb Duw.

## Gweddi

Dduw undod,  
yn lesu dangosaist i ni ystyr  
lletygarwch,  
drwy ofalu am ein dynoliaeth fregus.  
Cynorthwya ni i ddod yn gymuned  
sy'n croesawu'n haelionus y

## Cwestiynau

**Personol:** Pryd ydych chi wedi  
gweld Crist mewn rhywun nad oedd  
yn debyg i chi?

**Lleol:** A oes eglwysi neu fannau  
eraill sy'n gweithredu fel 'llety' yn  
eich ardal chi?

**Byd-eang:** A yw eich gwlad yn  
croesawu rhai sydd mewn angen,  
ai peidio?

rhai sy'n teimlo ar goll ac wedi'u  
hanghofio,  
gyda'n gilydd yn adeiladu llety lle  
mae croeso a chariad i bawb.  
Boed i ni ddod yn agosach at ein  
gilydd wrth i ni fod yn afradlon  
â'th gariad diamod  
yn undod yr Ysbryd Glân. Amen.

## Ewch a Gwnewch

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personol:** Dysgwch am fywyd Cristion o draddodiad arall sydd wedi bod  
yn 'gymydog da'. Beth wnaethon nhw a beth allwch chi ei ddysgu o'r  
profiad hwnnw?

**Lleol:** Pa 'drysor' eciwmenaidd sydd i'w ganfod yn eich ardal chi?  
Darganfyddwch beth mae Cristnogion yn ei wneud gyda'i gilydd ac  
ymunwch â'r gweithgaredd.

**Byd-eang:** Ystyriwch eich cymdogion mewn rhan wahanol o'r byd.  
Ymunwch â Chylch Gweddi Cyngor Eglwysi'r Byd ac ymrwymo i weddio'n  
rheolaidd dros eich cymdogion ac i ddod i'w deall yn well.

# DAY 6

Then he put him on his own animal, brought him to an inn, and took care of him. (Lk 10:34)

## Lord, turn our churches into 'inns', welcoming those in need

### Additional scripture passages

Genesis 18:4-5

Psalm 5:11-12

### Commentary

The man who fell into the hands of robbers was cared for by a Samaritan. The Samaritan confronted his own fear and prejudice and moved beyond it. He saw a stranger in need and brought him to an inn. "The next day he took out two denarii, gave them to the innkeeper, and said, 'Take care of him; and when I come back, I will repay you whatever more you spend'" (Lk 10:35).

In any human society, hospitality and solidarity are essential. They require the welcoming of strangers, migrants and all people without a home. Such hospitality can require sacrifice, but it is an important witness to the Gospel, particularly in contexts of religious and cultural pluralism. When faced with insecurity, suspicion and sometimes violence, we tend to mistrust our neighbours and extending and

accepting hospitality becomes more difficult.

Welcoming 'the other', and being welcomed in turn, is at the heart of ecumenical dialogue and practice. Christians are challenged to turn our churches into inns, open and inviting spaces where our neighbours can find Christ. Such hospitality is a sign of the love that our churches have for one another and for all.

When we, as followers of Christ, move beyond our traditions and choose to practise ecumenical hospitality, we stop being strangers and start being good neighbours.

### Reflection

What stops me from action?  
What silences our unity?  
Clinging to familiarity.  
Paralysed by fear of change,  
rejection and judgement.

Or simply a lack of time.  
Justifying a choice to keep on  
walking.  
To discard a treasure.

Where is Christ in the face of  
the other?  
Rescuing, welcoming, accepting me.  
Joining me in prayer, worship  
and witness.  
Seeing me as I look into the eyes of  
those in need.  
The unexpected jewel reflecting  
something of the face of God.

## Prayer

God of unity  
In Jesus, you showed us the  
meaning of hospitality,  
by caring for our fragile humanity.  
Help us to become a community

that generously welcomes those  
who feel abandoned and lost,  
together building an inn where all  
are welcomed and loved.

May we become closer to each  
other as we flaunt your  
unconditional love in the unity of  
the Holy Spirit. Amen.

## Questions

**Personal:** When have you seen  
Christ in someone who was not like  
you?

**Local:** Are there churches or spaces  
that act as an 'inn' near you?

**Global:** Is your country welcoming  
of those in need, or not?

## Go and do

(see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personal:** Find out about the life of a Christian from another tradition who has been a 'good neighbour'. What did they do and what can you learn from this experience?

**Local:** What ecumenical 'treasure' can be found in your area? Find out what Christians are doing together and get involved.

**Global:** Consider your neighbours in a different part of the world. Join the World Council of Churches Prayer Cycle and commit to praying regularly for your neighbours and understanding them better.

# DIWRNOD 7

Meddai Iesu, “P’run o’r tri hyn, dybi di, fu’n gymydog?”  
(Luc 10:36)

Arglwydd, dangos i ni sut i ymateb i’n cymydog.

## Darlleniadau ychwanegol o’r Beibl

Philipiadaid 2.1-5  
Salm 10:17-18

## Sylwadau

Ar ddiwedd y ddameg gofynnodd Iesu i’r cyfreithiwr, “Pwy fu’n gymydog i’r dyn a syrthiodd i blith lladron?” Atebodd y cyfreithiwr “Yr un a gymerodd drugaredd arno”. Nid yw’n dweud “y Samariad” a gallem ddychmygu efallai bod yr elyniaeth rhwng y Samariaid a’r Iddewon wedi gwneud yr ateb hwnnw’n anodd ei gyfaddef. Rydym yn aml yn darganfod ein cymdogion ymhlith y bobl fwyaf annisgwyl, hyd yn oed y rhai y mae eu henw neu eu tarddiad yn anodd i ni ei yngan. Yn y byd sydd ohoni, lle mae polareiddio gwleidyddol yn aml yn gosod pobl o gefndiroedd crefyddol gwahanol yn erbyn ei gilydd, mae Iesu’n ein herio drwy’r ddameg hon i sylweddoli pwysigrwydd ein galwedigaeth i herio’r ffiniau a’r muriau sy’n ein gwahanu.

Fel y cyfreithiwr, cawn ein herio i fyfyrion ynghylch y ffordd rydym yn

byw ein bywydau, nid yn unig o ran a ydym yn gwneud da ai peidio, ond i ystyried tybed a ydym, fel yr offeiriad a’r Lefiad, yn esgeuluso gwneud trugaredd.

## Myfyrdod

Nhw  
y bobl yna,  
pobl fel’na,  
ti’n gwybod...

Ond dwyt ti ddim yn gwybod.  
Dyna’r pwynt,  
Oherwydd nad wyt ti isio gwybod.  
Dydyn nhw ddim yn bwysig,  
cyn belled â’u bod yn gwybod eu lle.

Diolch i ti, Dduw annwyl,  
fod dy drugaredd ymwithiol  
wedi’n rhoi ninnau’n ein lle  
ar gyfer y lleill ’na.

## Gweddi

Dduw sanctaidd,  
Daeth dy Fab Iesu Grist i'n plith  
i ddangos i ni ffordd tosturi.  
Cynorthwya ni drwy dy Ysbryd i  
ddilyn ei esiampl,  
i wasanaethu yn ôl anghenion dy  
holl blant,  
ac felly i dystio gyda'n gilydd fel  
Cristnogion i'th ffyrdd dithau o  
gariad a thrugaredd.  
Gweddiwn yn enw Iesu. Amen.

## Cwestiynau

**Personol:** Sut allwch chi roi  
trugaredd ar waith heddiw?

**Lleol:** Pa ffiniau a muriau sy'n  
gwahanu pobl mae angen i chi eu  
herio yn eich ardal chi?

**Byd-eang:** Sut ddylai'r Eglwys  
rannu rhodd trugaredd â'r byd?

## Ewch a Gwnewch

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personol:** Dysgwch rai ymadroddion sylfaenol yn iaith grŵp o bobl sy'n  
newydd i'ch ardal, a'u defnyddio.

**Lleol:** Meddyliwch am ffyrdd y gall eich eglwys neu grŵp o eglwysi  
dderbyn gan y bobl rydych yn eu cynorthwyo.

**Byd-eang:** Darganfyddwch y ffyrdd mae Cristnogion, eglwysi a phobl o  
grefyddau eraill wedi bod yn drugarog wrth y rhai a fyddai wedi disgwyl  
hynny leiaf.

# DAY 7

Jesus said: “Which of these three, do you think, was a neighbour?”  
(Lk 10:36)

## Lord, show us how to respond to our neighbour

### Additional scripture passages

Philippians 2.1-5  
Psalm 10:17-18

### Commentary

At the end of the parable, Jesus asked the lawyer: who was the neighbour to the man who was robbed? The lawyer replied “the one who showed him mercy”. He does not say “the Samaritan” and we might imagine that the hostility between Samaritans and Jews made that answer hard to admit. We often discover our neighbours in the most unexpected people, even those whose very name or origins we find difficult to utter. In today’s world, where polarised politics often set those of different religious identities against one another, Jesus challenges us through this parable to see the importance of our vocation to transgress borders and walls of separation.

Like the lawyer, we are challenged to reflect upon how we live our lives, not merely in terms of whether we do good or not, but whether, like the priest and the Levite, we are neglecting to do mercy.

### Reflection

Them,  
those people,  
people like that,  
you know...

But you don’t know,  
that’s the point,  
because you don’t want to know.  
They’re not important,  
as long as they know their place.

Thanks be to you, dear God,  
that your interfering mercy  
has put us in our place  
for those others.

## Prayer

Holy God,  
your Son Jesus Christ came  
among us  
to show us the way of compassion.  
Help us by your Spirit to follow  
his example,  
to serve the needs of all your  
children,  
and so witness together as  
Christians to your ways of love  
and mercy.  
We pray in Jesus' name. Amen.

## Questions

**Personal:** How can you 'do mercy' today?

**Local:** What borders and walls of separation need to be transgressed in your locality?

**Global:** How should the Church share the gift of mercy with the world?

## Go and do

(see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personal:** Learn some basic phrases in the language of a group of people new to your area, and use them.

**Local:** Think of ways in which your church or group of churches can receive from the people they help.

**Global:** Discover the ways Christians, churches and people of other faiths have been merciful to those who would have least expected it.

# DIWRNOD 8

Meddai Iesu wrtho, “Dos, a gwna dithau yr un modd”. (Luc 10:37)

## Arglwydd, bydded ein trugaredd yn arwydd o’th Deyrnas.

### Darlleniadau ychwanegol o’r Beibl

Rhufeiniaid 12:9-13

Salm 41:1-2

### Sylwadau

Trwy’r geiriau hyn – “Dos, a gwna dithau’r un modd” – mae Iesu’n anfon pob un ohonom, a’n heglwysi, i fyw’n unol â’i orchymyn i garu. Wedi’n hysbrydoli gan yr Ysbryd Glân, fe’n hanfonir allan i fod yn “Gristiau eraill”, gan estyn ein dwylo tuag at ddynoliaeth ddiodefus mewn tosturi a thrugaredd. Fel y gwnaeth y Samariad Trugarog yn achos y dyn a oedd wedi’i anafu, gallwn ddewis peidio â gwrthod y rhai sy’n wahanol, gan yn hytrach feithrin agwedd o agosrwydd ac ewyllys da. Gallwn ddal ar bob cyfle i fod yn groesawgar a gweithredu ar hynny, gan groesawu a rhannu, yn ein tasg gyffredin o roi breuddwyd Duw ar wait.

Wrth ystyried sut mae gwahoddiad Iesu “Dos, a gwna dithau’r un modd” yn llefaru wrth ein bywydau ninnau, rhaid i ni beidio â cholli golwg ar yr angen i ddangos tosturi a thrugaredd mewn lleoedd efallai na fyddem yn dymuno mynd, neu nad oes gennym gysylltiad uniongyrchol â nhw, ardaloedd megis rhanbarth y Sahel, sy’n dioddef oherwydd gwrthdaro rhyng-gymunedol. Er mwyn bod yn gymdogion yng ngwir ystyr y gair, rhaid i’n gorwelion ehangu y tu hwnt i’r hyn nad yw’n costio dim i ni, gan gwmpasu’r holl fyd, wrth i ni ymdrechu’n egniol dros gyfiawnder ac undod, gan ddysgu sut y gallwn ninnau

brofi cariad Crist wrth i ni groesawu eraill.

Mae ymdrechu gyda’n gilydd i sefydlu undod ar sail trugaredd o gymorth i ailadeiladu perthynas, fel y bydd trais yn ildio i undod a heddwch. Wrth i gyd-ymddiried a hyder gynyddu, byddwn yn dod yn fwy parod i ddatgelu ein clwyfau, gan gynnwys ein clwyfau eglwysig, yn y gobaith y gallwn brofi cariad Crist drwy gariad a gofal pawb at ei gilydd.

### Myfyrdod

Wedi’r dadwrdd,  
bu distawrwydd dolurus.  
Eiliadau o eglurder am yn ail â dim.  
Â’m hanadlu’n ymdrech  
yn y baw  
gweddi’af.

Sela

Llaw ar fy nghorff,  
yn wahanol y tro hwn.  
Cyffyrddiad bwriadus – gan adnabod y  
loes sy’n parhau –  
llaw cysur,  
nid niwed.

Sela

Arogl gwin wedi’i dywallt i leddfu,



a blas chwerwfelys tannin.  
Llif yr olew lawr fy nghroen  
a loes a thangnefedd yn cyfarfod yn  
fy nghlwyfau:  
balm i feddwl, enaid a chorff.

Sela

Ffuriau aneglur yn sefyllian wrth i  
mi symud  
yn benysgafn bell mewn mangre  
ddieithr  
ond llaw tosturi eto'n gyfarwydd.  
Tafodau tu hwnt i'm deall  
yn sibrwd addewid gofal.  
Y tro hwn, wrth imi agor fy llygaid,  
heb erioed o'r blaen dy weld  
rwy'n adnabod dy trugaredd.

## Gweddi

Dduw mamol,  
sy'n cofleidio'r byd â'th gariad,  
bydded i ni ofalu am ein gilydd fel  
y gwnei di, am bob enaid byw.

## Cwestiynau

**Personol:** Beth mae'r alwad hon gan  
Grist yn ei awgrymu ar gyfer eich  
perthynas ag aelodau eglwysi eraill?

**Lleol:** Beth mae pobl yn ei weld yn ein  
ffordd o wneud pethau (gyda'n gilydd)  
fel yr Eglwys sy'n ystyrlon iddynt?

**Byd-eang:** Beth mae neu beth all  
undod trugarog ei olygu ar raddfa  
fyd-eang?

Ysbryd Glân,  
rhoddr bywyd, gwna ni'n agored  
i'n gilydd  
a nertha rhwymau'n cymundeb fel y tyf  
ein cariad at ein gilydd.

Dywysog Tangnefedd,  
gwna ni'n benderfynol o fyw yn ffyddlon  
i'r Efengyl  
fel y bydd ein croeso'n feiddgar a'n  
cymod yn gadarn.

## Ewch a Gwnewch

([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personol:** Meddyliwch sut rydych chi wedi profi 'Cristiau eraill' ac wedi bod yn  
Grist i eraill, yna rhannwch ambell hanes am hynny gydag eraill, a gweddiwch am  
fwy o gyfleoedd tebyg.

**Lleol:** Lle mae Duw eisoes yn gweithio yn eich cymuned? Nodwch ar gyfer eich  
ardal y lleoedd lle rydych chi'n sylwi ar rywbeth sy'n digwydd a allai fod yn arwydd  
o freuddwyd Duw ar waith ar gyfer eich cymunedau. Ystyriwch sut y gallech  
ymuno a lle gallech wneud yr un modd.

**Byd-eang:** Nid yw "Dos a gwna dithau'r un modd" yn golygu bod rhaid i ni fynd  
yn gorfforol i lleoedd fel rhanbarth y Sahel i gael effaith. Ystyriwch ffyrdd o sefydlu  
cysylltiad ag eglwysi a phartner sefydliadau yn Burkina Faso a mannau eraill sy'n  
ymddangos yn bell i ffwrdd a gweithiwrch i ddyfnhau'r berthynas a'ch dealltwriaeth  
o'r sefyllfa a'i chyd-destun.

# DAY 8

Jesus said to him, “Go and do likewise”. (Lk 10:37)

## Lord, may our mercy be a sign of your Kingdom

### Additional scripture passages

Romans 12:9-13

Psalm 41:1-2

### Commentary

Through these words – “Go and do likewise” – Jesus sends each of us, and our churches, to live out His commandment to love. Inspired by the Holy Spirit, we are sent out to be “other Christs”, reaching out to a suffering humanity in compassion and mercy. Like the Good Samaritan towards the injured man, we can choose not to reject those who are different, rather cultivating a culture of proximity and goodwill - actively seeking out and moving towards opportunities to be hospitable, to welcome and to share - in our common task to bring to fruition the dream of God.

In considering how Jesus’ invitation to “Go and do likewise” speaks to our own lives, we must not lose sight of the need for compassion and mercy in places we may not be willing to go, or have no direct connection with, such as areas like the Sahel region affected by inter-communal conflict. To truly be neighbours, our horizons must expand beyond that which does not cost us anything, encompassing the whole world, as we intentionally strive for justice and unity, learning how Christ’s love can visit us through the welcoming of others.

Striving together for merciful unity helps rebuild relationships, so that violence can give way to solidarity and peace. As mutual trust and confidence increase, we become more willing to reveal our wounds, including ecclesial wounds, in the hope that Christ’s love may visit and heal us through each other’s love and care.

### Reflection

After the cacophony was over,  
there was painful stillness.  
Moments of lucidness punctuated  
with nothing.

Breathless  
in the dirt  
I pray.

Selah

A hand upon my body  
different from before.  
The intention of the touch - mindful of  
the pain still present -  
is to tend,  
not to harm.

Selah

The smell of wine poured to soothe  
bittersweet tannin in my mouth.  
The feeling of oil running down  
my skin  
the wounds of the body the meeting  
place for pain and peace  
a balm for mind, body and soul.

Selah

Blurred figures linger as I move  
weightless in unknown surroundings  
yet the familiar touch of compassion.  
Faint murmurs in unfamiliar tongues  
promise care.  
This time, as I open my eyes,  
having never seen you before  
I recognise your mercy.

## Prayer

Mothering God,  
who holds the world in loving embrace,  
may we care for each other as you do,  
each and every soul.

Holy Spirit,  
giver of life, open us to each other  
and strengthen our bonds of  
communion and grow us in  
mutual affection.

Prince of Peace,  
give us the resolve to live out the  
Gospel faithfully  
that we may be radical welcomers  
and reconcilers.

## Questions

**Personal:** What does this call of Christ imply for your relationships with members of other churches?

**Local:** What is it that people recognise in the flavour of what we do (together) as the Church that is meaningful?

**Global:** What does/might merciful unity look like on a global scale?

## Go and do

(see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

**Personal:** Reflect on how you have experienced 'other Christ's' and been Christ to others, then share some stories about this with others, and pray for more opportunities.

**Local:** Where is God already at work in your community? Map out where you live highlighting the places where you notice something happening that may be God's dream for your communities. Explore how you might join in and go and do likewise.

**Global:** 'Go and do likewise' does not mean we have to go to places such as the Sahel region to have an impact. Explore ways of connecting with churches and partner organisations in Burkina Faso and other places that seem far away and actively seek deeper connection and understanding of situations/context.

# Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2024



[ctbi.org.uk/weekofprayer](http://ctbi.org.uk/weekofprayer)  
[weekofprayer.org](http://weekofprayer.org)

ISBN: 978-0-85169-422-1

**Cyhoeddwyd gan**  
**Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain**  
**ac Iwerddon**

Interchurch House  
35 Lower Marsh  
Llundain SE1 7RL  
[info@ctbi.org.uk](mailto:info@ctbi.org.uk),  
Ffôn: 0203 794 2288

Elusen gofrestredig rhif 1113299.  
Cwmni cyfyngedig trwy warant,  
rhif cofrestru 5661787.

X (Twitter): [#wpcu2024](https://twitter.com/wpcu2024)  
[#wpcuwall](https://twitter.com/wpcuwall)

**Published by**  
**Churches Together in Britain**  
**and Ireland**

Interchurch House  
35 Lower Marsh  
London SE1 7RL  
[info@ctbi.org.uk](mailto:info@ctbi.org.uk),  
Tel: 0203 794 2288

Registered charity no. 1113299.  
Company limited by guarantee,  
registered no. 5661787.